


Adroddiad Adolygu Terfynol CDLI Newydd Caerdydd

Mawrth 2021



Cynnwys

	Tuda
1 Cyflwyniad	3
2 Gwybodaeth a Materion sy'n llywio'r Adolygiad o'r CDLI	4
Newidiadau cyd-destunol a newidiadau sylfaen dystiolaeth	4
Canfyddiadau Adroddiadau Monitro Blynyddol y CDLI (AMBau/AMRs)	16
Goblygiadau sy'n deillio o Bandemig Covid	19
3 Adolygiad o'r CDLI a'r newidiadau posibl sydd eu hangen	20
Adolygiad o Weledigaeth ac Amcanion y CDLI	21
Adolygiad o Strategaeth a Pholisïau y CDLI	25
4 Gofynion sylfaen dystiolaeth yn y dyfodol	42
5 Opsiynau Adolygu'r CDLI	44
6 Casgliadau a Chamau Nesaf	45

1. Cyflwyniad

Cefndir

- 1.1. Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar 28 Ionawr 2016 ac mae'n nodi fframwaith cynllunio'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnydd tir yng Nghaerdydd dros y cyfnod o 2006 i 2026.

Diben yr Adroddiad hwn

- 1.2. Mae'r Adroddiad Adolygu drafft yn cyflwyno hyd a lled y newidiadau tebygol i'r CDLI (2006-2021) presennol ac yn gofyn am gadarnhau y caiff y weithdrefn adolygu ei dilyn wrth baratoi CDLI newydd. Cynigir y byddai'r CDLI Newydd yn cwmpasu cyfnod cynllun hyd at 2036, sef diwedd cyfnod o 15 mlynedd a fydd yn dechrau yn 2021.

Strwythur yr Adroddiad

- 1.3. Mae'r Adroddiad Adolygu drafft wedi'i strwythuro fel yr argymhellwyd mewn canllawiau cenedlaethol ac mae'n cynnwys yr adrannau canlynol:
- 1.4. **Adran 2** yn manylu ar y newidiadau polisi deddfwriaethol, cenedlaethol a lleol allweddol a'r sylfaen dystiolaeth sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r CDLI yn 2016 sy'n ystyriaethau pwysig i lywio'r adolygiad o'r CDLI a chrynodeb o brif ganfyddiadau Adroddiad Monitro Blynyddol 2019 (3ydd) a 2020 (4ydd), gan ystyried y 2 AMB blaenorol a'r goblygiadau cysylltiedig ar gyfer adolygu'r CDLI.
- 1.5. **Adran 3** yn darparu asesiad o'r CDLI presennol ac yn nodi'r newidiadau posibl sy'n ofynnol o ran y Weledigaeth a'r Amcanion, y Strategaeth Ddatblygu a'r Polisiâu i lywio'r broses adolygu.
- 1.6. **Adran 4** yn ystyried y meysydd tystiolaeth y byddai angen eu hadolygu/diweddaru wrth baratoi CDLI diwygiedig
- 1.7. **Adran 5** yn ystyried yr opsiynau posibl ar gyfer adolygu'r CDLI a chyfleoedd i gydweithio.
- 1.8. **Adran 6** yn rhoi casgliad ar ffurf briodol diwygio'r cynllun.

2. Gwybodaeth a Materion sy'n llywio'r Adolygiad o'r CDLI

Newidiadau Cyd-destunol

2.1. Mae ystod eang o ddeunydd cyd-destunol wedi'i gyhoeddi ers mabwysiadu'r CDLI ac mae'n creu sylfaen dystiolaeth fwy diweddar i lywio adolygiad o'r cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys deddfwriaeth genedlaethol newydd a/neu ddiwygiedig a chynlluniau, polisiau a strategaethau perthnasol ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol. Nodir y newidiadau mwyaf arwyddocaol isod.

Newidiadau Deddfwriaethol

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

2.2. Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2015 a daeth i rym fesul cam rhwng mis Hydref 2015 a mis Ionawr 2016. Mae'n nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn deg, yn wydn ac yn galluogi datblygiad. Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â 5 amcan allweddol sy'n cynnwys cryfhau'r dull cynllunio a arweinir gan gynllun. Mae'n cyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDSau). Mae'r FfDC yn gynllun defnydd tir cenedlaethol a fydd yn nodi polisiau Llywodraeth Cymru o ran datblygu a defnyddio tir yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae wedi cyrraedd y cam Drafft Ymgynghori a rhagwelir y caiff ei fabwysiadu yn 2020 pan fwriedir i'r FfDC ddisodli Cynllun Gofodol Cymru. Bwriedir i CDSau fynd i'r afael â materion trawsffiniol ar lefel ranbarthol fel tai, cyflogaeth a gwastraff a rhaid iddynt fod yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC. Mae'r Rheoliadau'n cyfeirio at dair ardal gynllunio strategol gan gynnwys De-ddwyrain Cymru. Rhagwelir y bydd Caerdydd yn rhan o'r ardal gynllunio strategol hon, yn unol â'r cynigion ar gyfer Bargaen Dinas-ranbarth Caerdydd sy'n dod i'r amlwg. Bydd gan CDLIau rôl sylfaenol o hyd yn y system a arweinir gan gynllun. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i CDLIau fod yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC ac unrhyw CDS sy'n cynnwys ardal gyfan neu ran ohoni. Rhaid i CDSau osod y cefndir ar gyfer paratoi CDLI 'Ysgafn' gan ACLIau. Rhaid i'r rhain fod yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r CDS.

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015

2.3. Cynhaliwyd diwygiadau i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 mewn ymateb i ganlyniad Ymarfer Mireinio'r CDLI a'u nod yw symleiddio rhai agweddau ar broses y cynllun datblygu lleol.

2.4. Mae'r Rheoliadau diwygiedig yn:

- Dileu'r gofyniad statudol i hysbysebu camau ymgynghori yn y wasg leol;
- Caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol wneud diwygiadau i'r cynllun datblygu lleol lle nad yw'r materion dan sylw yn ddigon arwyddocaol i warantu'r weithdrefn lawn, heb fynd drwy'r broses adolygu lawn;
- Dileu'r angen i alw am safleoedd amgen ac ymgynghori arnynt yn dilyn yr ymgynghoriad adneuo; a

- Gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

2.5. Daeth y Rheoliadau CDLI diwygiedig i rym ar 28 Awst 2015 ac ynghyd â'r polisi a'r canllawiau cysylltiedig ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) a'r Llawlyfr CDLI diwygiedig, eu nod yw gwneud proses y CDLI yn fwy effeithlon ac effeithiol (h.y. galluogi paratoi ac adolygu cynlluniau'n gyflymach heb ragnodi'n ddiangen). Nid oes gan y Rheoliadau diwygiedig unrhyw oblygiadau i'r CDLI presennol ond bydd angen eu hystyried o ran unrhyw adolygiad ar Gynllun a rhoddir ystyriaeth bellach iddynt yn ôl yr angen.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.6. Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015 a daeth i rym ar 1 ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r trefniadau llywodraethiant presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru drwy sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus. Nod y ddeddf yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru drwy osod amcanion sy'n gwneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant sef 'Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang', Cymru ffyniannus, Cymru wydn, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus, a Chymru o ddiwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu.

2.7. Roedd y Ddeddf yn sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy weithio i gyflawni'r targedau llesiant. Mae BGC Caerdydd yn gyfrifol am baratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol (CLLI) sydd yn nodi ei amcanion a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni. Pedwar aelod statudol y BGC yw'r Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Awdurdod Tân ac Achub a Chyfoeth Naturiol Cymru; gwahoddir sefydliadau eraill hefyd. Fel rhan o'i gyfrifoldeb, mae'r BGC wedi cynhyrchu asesiad llesiant sy'n asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghaerdydd. Cytunwyd ar CLLI y BGC ym mis Mai 2018 ac mae'n nodi cynllun 5 mlynedd (2018-2023) i ymateb i'r materion a godwyd. Nodir yr amcanion isod a byddant yn llywio gweledigaeth ac amcanion y CDLI newydd:

- Amcan 1 – Prifddinas sy'n Gweithio dros Gymru;
- Amcan 2 – Caerdydd sydd yn tyfu mewn ffordd gadarn;
- Amcan 3 - Cymunedau Diogel, Hyderus wedi eu Grymuso;
- Amcan 4 - Caerdydd sydd yn lle gwych i gael eich magu
- Amcan 5 – Cefnogi pobl allan o dlodi
- Amcan 6 - Caerdydd sydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn
- Amcan 7 - Moderneiddio ac Integreiddo Ein Gwasanaethau Cyhoeddus

2.8. O ystyried mai datblygu cynaliadwy yw egwyddor sylfaenol graidd y CDLI Newydd (a'r AAS); mae cysylltiadau clir rhwng dyheadau'r CDLI Newydd a'r Cynlluniau Llesiant Lleol. Mae'n bwysig bod proses adolygu'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd ymateb i'r agenda hon a chanllawiau dilynol gan Lywodraeth Cymru fel y'u dangosir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) y cyfeirir ato hefyd yn yr adran hon.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

2.9. Cafodd y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016 a daeth i rym ar 21 Mai 2016 ac mae'n cyd-fynd â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i hyrwyddo defnydd cynaliadwy, rheolaeth a datblygu ar adnoddau Cymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd ac yn darparu fframwaith ailadroddol sy'n sicrhau y bydd rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol sy'n darparu asesiad o adnoddau naturiol ac yn ystyried i ba raddau y maent yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol sy'n nodi'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Bydd CNC hefyd yn cynhyrchu sylfaen dystiolaeth leol (Datganiadau Ardal) i helpu i weithredu'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a nodwyd yn y Polisi Cenedlaethol ac yn nodi sut yr eir i'r afael â'r rhain.

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

2.10. Cafodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau pwysig i'r ddwy brif ddeddf DU sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol: Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Bydd y Ddeddf yn rhoi amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig; gwella'r ffordd y rheolir yr amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy; a chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir ar yr amgylchedd hanesyddol.

Deddf Iechyd Y Cyhoedd (Cymru) 2017

2.11. Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith yng Nghymru i wella iechyd ac atal niweidiau iechyd y gellir eu hosgoi. Mae sawl un o'r newidiadau perthnasol yn y Ddeddf yn cynnwys llunio strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gorbwysedd a gofyniad i wneud Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) ar benderfyniadau allweddol.

Addasiadau i'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol

Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a Nodiadau Cyngor Technegol

2.12. Ers mabwysiadu'r CDLI ym mis Ionawr 2016 mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fersiwn cwbl ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) ym mis Rhagfyr 2018. Mae hwn wedi'i ail-ddrafftio fel bod y saith nod llesiant a phum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 wedi'u hintegreiddio'n llawn i bolisi. Mae hefyd yn rhoi'r cysyniad o greu lleoedd wrth wraidd polisi cynllunio cenedlaethol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cynllunio yn ystyried pob agwedd ar lesiant ac yn darparu datblygiadau newydd sy'n gynaliadwy ac sy'n darparu ar gyfer anghenion pawb. Cyhoeddwyd diweddariad ffeithiol i hyn ym mis Chwefror 2021 (Argraffiad 11) er mwyn ei gysoni â chyhoeddiad Dyfodol Cymru ac adlewyrchu diweddariadau deddfwriaethol, polisi a chanllawiau ehangach ers cyhoeddi Argraffiad 10 ym mis Rhagfyr 2018. Yn ogystal, mae'r Nodiadau Cyngor Technegol newydd neu ddiwygiedig canlynol wedi'u cyhoeddi ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu ym mis Ionawr 2016:-

- NCT 4: Manwerthu a Datblygu Masnachol (Tachwedd 2016)
- NCT12: Dylunio (Mawrth 2016)
- NCT 20: Cynllunio a'r Gymraeg (Hydref 2017)
- NCT 21: Gwastraff (Chwefror 2017)
- TAN 24 newydd: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017)

Polisi Adnoddau Naturiol

2.13. Yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015 cynhyrchodd Llywodraeth Cymru Bolisi Adnoddau Naturiol (PAN) ym mis Awst 2017. Ffocws y PAN yw rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy, er mwyn gwneud y mwyaf o'u cyfraniad i gyflawni nodau sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r PAN yn nodi tair Blaenoriaeth Genedlaethol: darparu atebion sy'n seiliedig ar natur, cynyddu effeithlonrwydd ynni adnewyddadwy ac adnoddau, a mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar le. Mae'r PAN hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer Datganiadau Ardal, a gynhyrchir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, gan sicrhau bod y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn llywio'r dull o gyflawni'n lleol. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol roi sylw i'r datganiad ardal perthnasol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Bydd goblygiadau'r PAN a'r Datganiad Ardal perthnasol, sydd i'w gwblhau yn 2019, ar gyfer y CDLI yn cael eu hystyried drwy'r broses adolygu.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040

2.14. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn derfynol Dyfodol Cymru ar 24 Chwefror 2021. Mae'r ddogfen hon yn disodli Cynllun Gofodol Cymru ac yn nodi fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir yng Nghymru. Mae Dyfodol Cymru yn rhan allweddol o system y cynllun datblygu yng Nghymru ac mae ar frig hierarchaeth y cynllun datblygu. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer darparu seilwaith/twf newydd ac mae'n ceisio mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, sicrhau datgarboneiddio a gwydnwch yn yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau. Bydd

angen i'r CDLI Newydd fod yn unol â Dyfodol Cymru a bydd angen ystyried y fframwaith gofodol a blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy broses adolygu'r CDLI.

Adeiladu Lleoedd Gwell:

- 2.15 Mae'r canllaw hwn yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i helpu i weithredu yn y cyfnod adfer yn dilyn argyfwng pandemig Covid-19. Mae'r canllawiau'n rhoi'r system gynllunio yn ganolog wrth ystyried materion adeiladu a'r amgylchedd naturiol sydd wedi codi o'r pandemig. Dylid darllen y canllawiau ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru ac mae'n ceisio cyfeirio at y polisiau a'r offer cynllunio allweddol ym Mholisi Cynllunio Cymru y dylid eu defnyddio er mwyn helpu i adfer o'r pandemig yng Nghymru.
- 2.16 Yn y bôn, mae'r canllawiau'n ceisio cloi'r manteision sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r pandemig. Mae'n ceisio cyflawni hyn drwy adeiladu ar y dull Creu Lleoedd a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a nodi'r polisiau a'r dulliau cynllunio presennol allweddol y dylai pob sector eu defnyddio yn adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru.
- 2.17 Yn bwysig, mae'r canllawiau'n nodi nad yw'r cyfeiriad polisi tuag at leoedd gwell a Chreu Lleoedd wedi newid ac na ddylai'r angen am adferiad economaidd fod ar draul ansawdd, o ran iechyd a llesiant ac mewn ymateb i'r argyfyngau o ran yr hinsawdd a byd natur. Mae'r canllawiau felly'n hyrwyddo adferiad sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n cael ei arwain gan yr amgylchedd.
- 2.18 Mae'r canllawiau'n nodi bod cymryd ymagwedd Creu Lleoedd yn cynnig manteision lluosog sydd nid yn unig yn helpu i wella ansawdd bywyd, ond sydd hefyd yn ein helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, lleihau ein hól troed carbon a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecolegol ar gyfer y dyfodol.
- 2.19 Rhestrir crynodeb isod o'r **8 maes polisi** a ddylai fod yn ganolbwynt ystyriaeth a gweithredu, er mwyn gweithredu fel catalydd ar gyfer adferiad. Bydd y rhain yn dod o dan un o dri chategori:
1. Sut y profom ni effaith uniongyrchol cyfnod cloi Covid-19 a'r newidiadau cadarnhaol parhaol y mae angen i ni eu gweld mewn lleoedd ac fel rhan o ddatblygu newydd.
 2. Y gwersi rydym wedi'u dysgu dros y cyfnod hwn a sut y gallwn helpu i wneud lleoedd yn fwy gwydn a hyblyg i bandemig yn y dyfodol, pe digwydd hyn eto.
 3. Cynorthwyo'r adferiad ar ôl i'r pandemig fynd heibio a lleddfu'r cyfyngiadau er mwyn sicrhau ei fod o fudd i bob rhan o gymdeithas ac yn ein helpu i ddatgarboneiddio, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth a gwella iechyd a lles cyffredinol.

1 Aros yn lleol: creu cymdogaethau

- Nodi tir ar gyfer gerddi cymunedol a diogelu'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas (GMA/BMV)
- Tai ynni'n effeithlon

- Tai cymdeithasol
- Pwyslais ar egwyddorion Creu Lleoedd
- Safleoedd tai newydd i integreiddio â chymunedau, gwasanaethau a seilwaith sy'n bodoli eisoes
- Cyfeirir at ddefnyddio Gorchmynion Datblygu Lleol

2 Teithio llesol: ymarfer corff a dulliau cludiant wedi'u hailddarganfod

- Adeiladu ar newid moddol cadarnhaol y cyfnod clo
- Lleoli datblygiadau yn y lleoliadau cywir y gellir eu cyrchu'n rhwydd drwy ddulliau teithio gweithredol a chynaliadwy
- Dylai datblygiadau newydd gael eu gwasanaethu'n dda o ran cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus
- Ailbwysleisio hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy

3 Adfywio canol ein trefi

- Cydnabod dadeni sector gwasanaethau busnesau annibynnol lleol
- Galluogi canolfannau manwerthu a masnachol i weithredu'n hyblyg
- Ffiniau realistig a synhwyrol
- Dylid ailasesu rôl a swyddogaeth canolfannau sefydledig
- Defnyddio gofod y tu allan
- Dylai canolfannau traddodiadol fod yn gartref i amrywiaeth o ddefnyddiau – manau cydweithio hyblyg, preswyl, cymunedol, iechyd, hamdden ac ati.
- Dylid adolygu prif gofod manwerthu ar frys
- Aseidiadau Manwerthu mewn CDLI wedi eu disodli gan aseidiadau canol tref sy'n cwmpasu amrywiaeth ehangach o ddefnyddiau na manwerthu yn unig
- Egwyddor Cadw Canol y Dref yn Gyntaf a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru – wedi ei seilio ar weledigaeth ar gyfer pob canolfan
- Cadw prawf dilyniannol ochr yn ochr â rheolaeth ofalus ar leoliadau y tu allan i'r canol er mwyn osgoi patrymau teithio anghynaliadwy.

4 Lleoedd digidol - llinell achub y cyfnod clo

- Pwysigrwydd seilwaith digidol o ansawdd uchel mewn datblygiadau newydd

5 Arferion gwaith sy'n newid: ein hangen am dir cyflogaeth yn y dyfodol

- Ailedrych ar ragolygon economaidd i sicrhau bod y cyflenwad tir cyflogaeth yn ddigonol ac addas ar gyfer y dyfodol
- Adolygu dyraniadau cyflogaeth yng ngoleuni'r uchod – dad-ddyrannu safleoedd anghynaliadwy sydd dros ben, aiddyrannu safleoedd sydd wedi'u lleoli'n dda at ddefnydd cymysg
- Ailasesu'r angen am ddyraniadau cyflogaeth strategol; Cydweithio i nodi safleoedd trawsffiniol

- Gweithleoedd hyblyg ar gyfer gweithwyr o bell – yng nghanol trefi a dinasoedd, defnydd posibl o safleoedd ac adeiladau sydd dros ben, creu canolfannau ac ati.

6 Ail-ddeffro sectorau twristiaeth a diwylliannol Cymru

- Ystyried defnyddio gofod awyr agored o ran twristiaeth ac asedau diwylliannol

7 Seilwaith gwyrdd, iechyd a llesiant a gwydnwch ecolegol

- Pwysigrwydd o'r newydd mynediad i fannau gwyrdd
- Cyfle i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth a gwella gwydnwch ecosystemau
- Cyfle i ail-edrych ar ddefnydd traddodiadol a phresennol ar ofod mewn trefi a dinasoedd

8 Gwella ansawdd aer a seinweddau ar gyfer gwell iechyd a llesiant

- Rhoi dylunio acwstig da ac ansawdd aer ar flaen y llwyfan o ran penderfyniadau cynllunio

2.20. Mae gan y canllaw hwn oblygiadau sylweddol i'r adolygiad o'r CDLI ac mae'n atgyfnerthu'r angen i ddechrau adolygu'r CDLI cyn gynted â phosibl a sicrhau bod yr 8 blaenoriaeth a'r camau gweithredu hyn yn cael eu hystyried yn llawn wrth baratoi'r CDLI Newydd er mwyn darparu catalydd ar gyfer adfer y ddinas. Mae'r canllaw hefyd yn atgyfnerthu'r angen am sylfaen dystiolaeth gadarn ac astudiaethau o'r sylfaen dystiolaeth sy'n ymwneud â thwf yn y boblogaeth, rhagolygon economaidd, cyflenwad tir cyflogaeth, manwerthu a Seilwaith Gwyrdd y bydd angen eu hystyried yn ofalus er mwyn sicrhau bod effeithiau Covid yn cael eu hystyried yn llawn.

Trosolwg

2.21. Yn gyffredinol, bu newidiadau sylweddol a strategol i'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi cenedlaethol yr ystyrir eu bod yn uniongyrchol berthnasol i gynllunio defnydd tir. Gyda'i gilydd, mae'r polisi a'r canllawiau deddfwriaethol newydd yn gwyro'n sylweddol oddi wrth y sylfaen dystiolaeth sy'n llywio'r CDLI presennol ac yn cefnogi'r angen i ymateb i'r fframwaith cyd-destunol newydd hwn a pandemig Covid.

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC)

2.22. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cynllun morol cyntaf i Gymru ym mis Tachwedd 2019.

rhanbarthau cynllun morol Cymru ger y glannau ac allan ar y môr. Fe'i paratowyd a'i fabwysiadu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (DMMA/MCAA) at ddibenion Adran 51 o'r DMMA ac yn unol ag Atodlen 6 i'r DMMA ac yn unol â Datganiad Polisi Morol y DU (DPM/MPS) 2. Dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r Cynllun a'r deunydd

ategol i lunio cynigion a cheisiadau am drwyddedau, awdurdodau cyhoeddus i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, a defnyddwyr eraill i ddeall polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu ardal y Cynllun yn gynaliadwy.

Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel

2.23. Cyhoeddwyd y Cynllun hwn ym mis Mawrth 2019 ac mae'n gosod y sylfeini i Gymru drosglwyddo i fod yn wlad carbon isel. Mae lleihau ein hallyriadau a symud tuag at economi carbon isel yn dod â chyfleoedd o amgylch twf glân i fusnesau, yn ogystal â manteision ehangach i bobl a'n hamgylchedd. Mae'r Cynllun yn nodi'r camau y mae eu hangen i leihau allyriadau a chefnogi twf economi carbon isel mewn ffordd sy'n sicrhau'r manteision ehangach mwyaf posibl i Gymru, gan sicrhau cymdeithas decach ac iachach. Mae'r Cynllun hefyd yn dangos sut mae Cymru'n arwain ar y llwyfan rhyngwladol gydag Gwladwriaethau a Rhanbarthau eraill, gan gyfrannu at her newid hinsawdd byd-eang a rhannu dysgu ag eraill.

Y Cyd-destun Rhanbarthol

Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Fargen Ddinesig

2.24. Nodir De-ddwyrain Cymru fel dinas-ranbarth newydd yng Nghymru, sy'n cwmpasu Awdurdodau Lleol Caerdydd a de-ddwyrain Cymru. Fel y nodir yn yr adroddiad 'Pweru Economi Cymru, bwriad Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw annog y deg awdurdod lleol a phartneriaid allweddol eraill yn ei ffiniau i gydweithio a chydweithio ar brosiectau a chynlluniau ar gyfer yr ardal. Mae'r Awdurdodau sy'n ffurfio'r Brifddinas-Ranbarth yn parhau i weithio ar gais y Fargen Ddinas i ariannu prosiectau sydd â'r nod o hybu pa mor gystadleuol fydd y rhanbarth dros yr 20 mlynedd nesaf. O'i nodi, llofnodwyd dogfen y Fargen Ddinesig gan y 10 arweinydd awdurdod lleol, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys a'r Prif Weinidog ym mis Mawrth 2016. Rhoddir ystyriaeth bellach i gynnydd agenda Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Cynnig y Fargen Ddinas ac unrhyw oblygiadau dilynol i'r CDLI mewn AMBau dilynol lle y bo'n briodol.

CDLlau Cyfagos

2.25 Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, rhaid ystyried y posibilrwydd o baratoi CDLI ar y Cyd. Fodd bynnag, nodir bod 8 o'r 9 Awdurdod Lleol arall yn ne-ddwyrain Cymru eisoes yn paratoi eu CDLlau Newydd eu hunain heb unrhyw enghreifftiau o ymagwedd gweithredu ar y cyd. Nid yw'r Awdurdod Lleol sy'n weddill (Bro Morgannwg) wedi cyrraedd y cam Adolygu'r Cynllun eto oherwydd dyddiad mabwysiadu diweddarach ac nid ystyrir bod digon o synergeddau i gyfiawnhau paratoi CDLI ar y Cyd.

2.26 Manteisiodd y CDLI presennol ar ymarfer cydweithredol rhanbarthol pwrpasol i helpu i lywio strategaeth y Cynllun sy'n cynnwys yr holl Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill yn ne-ddwyrain Cymru. Gweithiodd y broses hon yn dda a chynigir dull tebyg eto i helpu i lywio'r CDLI Newydd.

Cyd-destun Lleol

2.27. Mae nifer o ddogfennau a strategaethau polisi lleol wedi'u paratoi neu eu diwygio ers mabwysiadu'r CDLI.

Uchelgais Prifddinas – Ein hymrwymiaidau parhaus i Gaerdydd

2.28. Mae hwn yn nodi agenda polisi pum mlynedd y Weinyddiaeth ar gyfer y ddinas. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar bedwar prif faes: Gweithio dros Gaerdydd: sicrhau bod pawb sy'n byw ac yn gweithio yma yn gallu cyfrannu at lwyddiant y ddinas a mwynhau'r buddion ddaw yn ei sgil. Gweithio dros Gymru – Mae angen prifddinas lwyddiannus ar Gymru lwyddiannus. Gweithio ar gyfer y dyfodol – Rheoli twf y ddinas mewn ffordd gynaliadwy Gweithio dros wasanaethau cyhoeddus: sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy yn wynebu galw cynyddol a chyllidebau llai. Y Cynllun Corfforaethol (2020-2023) a Chynllun Llesiant 2018-2023 yw'r dogfennau allweddol wrth gyflawni Uchelgais Prifddinas

Cynllun Llesiant Caerdydd 2018-2023

2.29. O dan ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru gyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol erbyn mis Mai 2018.

2.30. Ar ôl ymgymryd ag asesiad llesiant lleol i ddeall cryfderau a heriau'r ddinas, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (BGC) wedi llunio Cynllun Llesiant Lleol – cynllun 5 mlynedd i ymateb i'r materion a godwyd.

2.31. Mae'r Cynllun Llesiant yn nodi blaenoriaethau'r BGC o ran camau gweithredu, gan ganolbwyntio ar y meysydd cyflenwi gwasanaeth cyhoeddus sydd yn eu hanfod yn galw am weithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol y ddinas, a chyda dinasyddion Caerdydd.

2.32. Mae'r Cynllun yn cynnwys Amcanion Llesiant, blaenoriaethau lefel uchel y mae BGC Caerdydd wedi eu nodi fel y rhai pwysicaf. Mae hefyd yn cynnwys 'Ymrwymiaidau', neu gamau ymarferol y bydd gwasanaethau cyhoeddus y ddinas, ar y cyd, yn eu cyflawni dros y 5 mlynedd nesaf.

Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg Caerdydd Ddwyeithog

2.33 Cyhoeddwyd Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg Caerdydd Ddwyeithog ym mis Mawrth 2017 yn dilyn ystyriaeth gan y Cabinet a'r Cyngor llawn. Mae'n nodi ein blaenoriaethau i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghaerdydd ar y cyd â'n partneriaid, gan ddechrau ar ein taith i fod yn brifddinas wirioneddol ddwyeithog ar gyfer Cymru.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2.34 Ym mis Mawrth 2016 mabwysiadom Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd i nodi blaenoriaethau cydraddoldeb ein Cyngor ar gyfer y 4 blynedd nesaf. Cytunwyd ar saith Amcan Cydraddoldeb newydd ar y cyd â dinasyddion lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r Amcanion Cydraddoldeb newydd hyn yn llywio polisi, darparu gwasanaethau a chymorth y Cyngor i gyflogeion – dileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau.

Papur Gwyn Trafnidiaeth

2.35 Mae Papur Gwyn y Cyngor ar drafndiaeth yn nodi cynllun 10 mlynedd uchelgeisiol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, lleihau tagfeydd a gwella ansawdd aer ym mhrifddinas Cymru. Mae'r Papur Gwyn yn rhestru cyfres o broiectau a allai chwyldroi dewisiadau trafndiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd a'r rhanbarth, gan gynnwys:

- Ehangu'r cynlluniau Metro presennol i gynnig mwy o lwybrau tram/trên a gorsafoedd yng Nghaerdydd a'r rhanbarth
- Cyflwyno gwasanaethau Bws Cludiant Cyflym newydd a safleoedd Parcio a Theithio;
- Gwneud teithio ar fws yn sylweddol ratak
- Darparu llwybrau beicio a cherdded mwy diogel
- Cynnig dewisiadau teithio go iawn i annog pobl allan o'u ceir ac ar drafndiaeth gyhoeddus.

Cynllun Aer Glân

2.36 Mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o'r pryderon am effeithiau ansawdd aer ac yn cydnabod nad oes "lefel ddiogel" ddiffiniedig wrth ddisgrifio lefelau ansawdd aer. Mae pryderon diweddar ynghylch iechyd y cyhoedd wedi canolbwyntio ar lefelau nitrogen deuocsid (NO₂) uwch. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau lefelau mor isel ag sy'n ymarferol bosib trwy ddangos lefelau y tu hwnt i'r amcanion blynyddol a bennwyd ar gyfer NO₂ a osodwyd ar 40µg/m³.

2.37 Er mwyn gwella ansawdd yr aer yng Nghaerdydd, mae angen cymryd camau ar draws y ddinas gyfan. O ganlyniad mae'r Cyngor wedi datblygu a chyhoeddi Cynllun Aer Glân a gynhaliwyd er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfreithiol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018. Roedd y cyfarwyddyd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddatblygu Cynllun i fynd i'r afael â phryderon ansawdd aer gan y rhagwelwyd y byddai nifer o ffyrdd yng Nghaerdydd yn fwy na'r terfynau cyfreithiol ar gyfer NO₂ heibio i 2021 os na chymerwyd unrhyw gamau ychwanegol.

2.38 Cymeradwywyd cynllun a chyllid y Cyngor o tua £20M yn llawn gan Weinidogion Cymru ddiwedd Rhagfyr 2019, a bydd y Cynllun hwn yn gweithredu nifer o fesurau i leihau lefelau NO₂ ar draws Caerdydd ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithredu Bysus Trydan – 36 Bws Trydan i'w gweithredu ar nifer o lwybrau yng Nghanol y Ddinas;
- Rhaglen Ôl-Ffitio Bysiau i lanhau bysiau hŷn sy'n llygru;
- Polisi Trwyddedu Tacsis i roi trwyddedau newydd yn unig i gerbydau sy'n cydymffurfio â'r safonau allyriadau diweddaraf;
- Gwelliannau i Drafnidiaeth Canol y Ddinas; a
- Mesurau Teithio Llesol Pellach

2.39 Aseswyd y mesurau hyn nid yn unig i sicrhau y cydymffurfir â lefelau cyfreithiol ar gyfer NO₂ erbyn diwedd 2021, ond hefyd er mwyn sicrhau bod lefelau ar draws y Ddinas yn cael eu lleihau ymhellach er mwyn diogelu a gwella iechyd trigolion.

Strategaeth Tai ar gyfer Pobl Hŷn Caerdydd 2019 - 2023

2.40 Mae'r strategaeth yn nodi sut bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn cyflawni'r canlyniadau tai gorau i'r holl bobl hŷn yng Nghaerdydd. Mae gan y Strategaeth nifer o nodau allweddol, gan gynnwys cynllunio cartrefi a chymunedau newydd i fynd i'r afael ag anghenion tai a gofal yn y dyfodol ar draws pob deiliadaeth ac adeiladu cymunedau cynhwysol cryf a mynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol.

Strategaeth Economaidd y Cyngor Adeiladu Mwy o Gartrefi a Gwell Swyddi

2.41 Mae'r Strategaeth Economaidd yn cynnwys 3 rhan – strategaeth ofodol, strategaeth ddiwydiannol a themâu sylfaenol i gefnogi'r strategaeth ac mae'n nodi nifer o flaenoriaethau a phrosiectau sydd â'r nod o gyflawni nodau'r Cyngor ar gyfer yr economi dros y 10 mlynedd nesaf gan gynnwys: creu 20,000 o swyddi ychwanegol ar gyfer y ddinas-ranbarth; creu clwstwr busnes masnachol sylweddol cyntaf Cymru yn y Sgwâr Canolog, y Cei Canolog ac yn Sgwâr Callaghan; sefydlu Bae Caerdydd fel cyrchfan ymwelwyr trefol blaenllaw yn y Deyrnas Gyfunol ynddo'i hun; rhoi Caerdydd wrth wraidd sector Creadigol a Digidol y DG; lleoli Caerdydd fel canolfan genedlaethol ar gyfer Reg-Tech fel rhan o'i chlwstwr ariannol/technegol (fin-tech) a seiberddiogelwch; cryfhau lle dinas-ranbarth Caerdydd fel canolbwynt gweithgynhyrchu uwch yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar led-ddargludyddion cyfansawdd a gwyddorau bywyd; cefnogi cymunedau ac ardaloedd y ddinas i fanteisio ar dwf y ddinas; sefydlu llywodraethiant dinas-ranbarth cryfach sy'n cyflawni ar gyfer Gymru.

Caerdydd 2030 - Gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer Prifddinas o Ddysgu a Chyfleoedd

2.42 Cafodd y strategaeth hon ei lansio yn Hydref 2019 ac mae'n cynnwys nod o gyfoethogi a datblygu'r ystâd addysg er mwyn ateb newidiadau demograffig a chymdeithasol y ddinas. Mae'r strategaeth yn cynnwys ymrwymadau i gyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gan gynnwys ysgolion newydd/wedi eu hail-godi i adlewyrchu twf y boblogaeth a datblygiad y ddinas drwy'r CDLI.

Strategaeth Adfer Caerdydd

- 2.43 Mewn ymateb i'r materion a godwyd gan y pandemig mae'r Cyngor wedi paratoi strategaeth sy'n amlinellu'r hyn sy'n ofynnol yn ystod cyfnod adfer Covid-19 i sicrhau bod canol y ddinas, a chanolfannau lleol a dosbarth ehangach, yn cefnogi busnesau lleol, manwerthu a'r ystod ehangach o weithgarwch cymdeithasol a hamdden cadarnhaol sy'n gysylltiedig â chanol dinas Caerdydd yn llawn.
- 2.44 Mae'r strategaeth yn nodi ymyriadau hanfodol ar gyfer creu canol dinas diogel ac yn nodi camau gweithredu allweddol ar lefel dinas gyfan a fydd yn galluogi ymagwedd strategol integredig ar draws y ddinas, yn seiliedig argadw pellter cymdeithasol a sicrhau diogelwch pobl tra bod angen cadw pellter cymdeithasol. Bydd gwybodaeth a chyhoedduswyd wedi'u targedu yn cyd-fynd â chyflwyno'r ymyriadau hyn.
- 2.45 Mae'r strategaeth yn cynnwys yr elfennau canlynol:

Canol Dinas Ddiogel – Er mwyn cefnogi tair elfen allweddol o weithgarwch – cyflogaeth, manwerthu a lletygarwch mae'r strategaeth yn cynnwys cynllun rheoli gweithredol ar gyfer canol y ddinas sy'n nodi mesurau i hwyluso gofynion cadw pellter cymdeithasol, gan gynnwys ciwio, llwybrau ar gyfer cylchredeg/symud, gofod gorlifo a gwybodaeth, gan gynnwys arwyddion a llysgenhadon stryd. Mae'n amlinellu dull o hwyluso digwyddiadau a gweithgareddau, a fydd yn denu defnyddwyr yn ôl i ganol y ddinas.

Dinas Ddiogel wedi'i Chysylltu - Mae'r mesurau'n cynnwys pecyn o ddiogelwch a gwyrddlasu mewn canolfannau lleol a chanolfannau dosbarth megis lledu palmentydd, llwybrau beicio, cyfyngiadau cyflymder a mesurau mwy arwyddocaol lle y bo'n briodol, gyda chynllun peilot ar heol Wellfield. Bydd lleoliadau allweddol eraill fel parciau a phrifysgolion yn cael eu nodi a bydd cynlluniau'n cael eu datblygu i sicrhau cadw pellter cymdeithasol a mynediad effeithiol.

Yn ogystal, bydd mesurau sydd eu hangen ar frys i liniaru colli capasiti trafndiaeth gyhoeddus yn cynnwys cynlluniau cerdded a beicio, mesurau diogelwch (er enghraifft, lledu palmentydd), cynlluniau blaenoriaeth i fysiau ac ymgysylltu parhaus â gweithredwyr, megis Trafnidiaeth Cymru a Bws Caerdydd. Bydd capasiti parcio ychwanegol a chynlluniau 'parcio a phedlo/cerdded' hefyd yn cael eu harchwilio.

Bydd rhwydwaith beicio 'dros dro' systematig yn annog defnydd ychwanegol o'r modd ac yn darparu cysylltedd i ganol y ddinas, canolfannau lleol a chanolfannau trafndiaeth/galw. Bydd parcio beiciau ychwanegol yn cael ei ddarparu.

Caerdydd Un Blaned

- 2.46. Mae Strategaeth Caerdydd Un Blaned yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a ddatganwyd gan y Cyngor yn 2019. Mae'r Strategaeth yn cynnwys gweledigaeth sy'n:
- Nodi uchelgais 10 mlynedd y Cyngor i fod yn Garbon Niwtral yn ei weithgareddau ei hun;

- Galw ar y ddinas gyfan, yr holl ddinasyddion, ifanc a hŷn, ysgolion, partneriaid allweddol, cyflogwyr a rhanddeiliaid i weithio'n gadarnhaol gyda ni i ddatblygu map ffyrdd a chynllun gweithredu ledled y Ddinas ar gyfer Dinas carbon niwtral erbyn 2030;
- Nodi cyfleoedd a allai ail-fframio economi Caerdydd mewn ffordd sy'n wydn, yn gadarn ac yn hirdymor, gan sicrhau bod Caerdydd yn un o brif ddinasoedd gwyrdd y DU; a
- Diffinio'r rhaglenni a'r cyfleoedd uniongyrchol y mae angen i ni fynd i'r afael â hwy ar frys.

2.47. Mae'r strategaeth yn dadansoddi cwmpas a graddfa'r her sy'n wynebu'r Cyngor a'r Ddinas, ac yn tynnu sylw hefyd at y cyfleoedd a allai godi o weithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â'r her hon. Mae hefyd yn amlinellu'r cynnydd sylweddol yr ydym wedi'i wneud i weithio ar ein hŵl-troed carbon ac yna'n cynnig ystod eang o gamau gweithredu uniongyrchol a phosibl a fydd yn creu sail i'n hymateb tymor hwy i'r argyfwng hinsawdd. Mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n eang ar y strategaeth ddrafft a bydd hyn yn llywio cynllun gweithredu penodedig manwl a fydd yn cael ei gymeradwyo yng ngwanwyn 2021.

Rhagfynegiadau Poblogaeth a Thai Llywodraeth Cymru;

2.48 Ers mabwysiadu'r CDLI mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer 2018 (a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020 ac amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (a gyhoeddir yn flynyddol). Mae'r newidiadau allweddol i Gaerdydd fel a ganlyn:

- Mae amcanestyniadau poblogaeth 2018 yn dangos y bydd lefelau poblogaeth yn cynyddu o 364,248 i 372,944 rhwng 2018 a 2026. Mae hyn yn gynydd sydd yn 8% yn is i'r hyn a amcanestynwyd yn y CDLI a ddangosodd gynydd i 403,684.
- Mae amcanestyniadau aelwydydd 2018 yn dangos y bydd lefelau aelwydydd yn cynyddu o 153,204 i 160,052 rhwng 2018 a 2026. Mae hyn yn gynydd sydd 10% yn is i'r hyn a ragwelir yn y CDLI a ddangosodd gynydd i 177,845.
- Mae'r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn ar gyfer y cyfnod 2011 i 2019 yn nodi cynnydd cyson o 345,442 i 366,903, sy'n cyfateb i gynydd o 0.73% y flwyddyn dros yr 8 mlynedd diwethaf.

2.49 Ynghyd ag amcanestyniadau a gyhoeddwyd yn flaenorol ers mabwysiadu'r CDLI, mae'n amlwg y bydd y ffynhonnell bwysig hon o dystiolaeth yn arwyddocaol ym mhroses adolygu'r Cynllun lle bydd angen asesu lefel y twf dros gyfnod y Cynllun.

Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLI - Canfyddiadau Allweddol

2.50 Oherwydd y goblygiadau sy'n deillio o bandemig Covid mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad oes gofyniad eleni i gyflwyno'r AMB yn ffurfiol. Fodd bynnag, lle bo'n bosibl casglwyd data ar gyfer y 4ydd AMB i lywio'r adolygiad o'r Cynllun ac mae hwn wedi'i gynnwys yn yr adran isod ar ganfyddiadau allweddol. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl casglu data dangosyddion yn ymwneud â chyfraddau cwblhau tai ar gyfer y 4ydd AMB

ac o ystyried hynny mae data o'r 3ydd AMB wedi ei ddefnyddio ac y cyfeirir ato yn yr adran berthnasol isod.

2.51. O ystyried hyn wrth ystyried yr adolygiad o'r CDLI mae angen ystyried canfyddiadau'r 3ydd a'r 4ydd AMB. Yn gyffredinol, mae canfyddiadau'r 3ydd a'r 4ydd AMB yn gadarnhaol gyda'r rhan fwyaf o'r dangosyddion a ddangosir yn wyrdd sy'n dangos bod y rhan fwyaf o bolisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Ceir crynodeb o berfformiad yn erbyn prif bynciau'r Cynllun isod gydag Atodiad 1 yn nodi'r data a'r casgliadau yn fanylach.

2.52. **Cyflogaeth** – Mae monitro ar ddata'r 4ydd AMB yn dangos perfformiad cryf parhaus. Mae data ynglŷn â chreu swyddi net yn arbennig o bwysig - Mae'n ofynnol cael 40,000 o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun 2006-2026. Crëwyd 20,900 o swyddi rhwng 2006 a 2015 ac felly'r targed ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun yw 19,100 o swyddi neu 1,750 o swyddi bob blwyddyn. Ers yr AMB cyntaf (16/17) mae nifer y swyddi wedi bod yn cynyddu'n gyson gydag 8,000 o swyddi ychwanegol wedi'u darparu dros y 4 blynedd diwethaf.

2.53. **Tai** – Mae data monitro o'r 3ydd AMB yn dangos bod cartrefi newydd bellach wedi dechrau cael eu cwblhau ar lawer o Safleoedd Strategol y CDLI. Yn benodol, mae 3 o'r Safleoedd Strategol newydd eu cwblhau.

- Llwyddwyd i weld 511 yn cwblhau yn Natblygiad St Edeyrn (ychydig yn is na'r targed o 515 sydd wedi'i gynnwys yn yr AMB);
- Llwyddwyd i weld 167 yn cwblhau ar safle strategol gogledd orllewin Caerdydd, sydd â thair lleoliad ar wahân ar y gweill gyda mwy wedi'u cynllunio yn y dyfodol agos
- Llwyddwyd i weld 51 yn cwblhau ar safle strategol gogledd ddwyrain Caerdydd ac mae'r gwaith adeiladu ar y gweill yn Churchlands.

2.54. Er bod y cyfraddau hyn yn is na'r targedau a nodir yn yr AMB, mae bellach yn amlwg bod y dull a arweinir gan Gynllun bellach yn dechrau gyrru'r gwaith o ddarparu cartrefi newydd yn llwyddiannus ar lefel nas gwelwyd am y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r 1,444 a gwblhwyd yn 2018/19 (43% yn uwch na 2017/18) yn gwrthgyferbynnu â'r 9 mlynedd blaenorol lle'r oedd 725 o unedau'r flwyddyn ar gyfartaledd, heb unrhyw flwyddyn yn uwch na 1,000 o unedau ar gyfer y cyfnod hwn.

2.55. Mae'r data ar ddarparu tai yn dangos yr 'oedi' rhwng mabwysiadu'r Cynllun a chartrefi sy'n cael eu cwblhau ar safleoedd newydd a ddyrennir yn y Cynllun. Oherwydd cyfuniad o ddwyn safle ynghyd, ffactorau cyfreithiol a logistaidd a brofir gan dirfeddianwyr/datblygwyr ynghyd â'r amser sydd ei angen i sicrhau'r caniatâd cynllunio a mabwysiadu angenrheidiol, mae'r llwybrau cyflenwi yn arafach na'r disgwyl yn wreiddiol. Mae hyn yn cynnwys yr amser a dreulir yn sicrhau'r Cytundebau Adran 106 cysylltiedig sy'n cyflawni dyheadau'r Cyngor yn llawn fel y nodir yn y CDLI. Yn gyffredinol, dros y 13 mlynedd rhwng 2006 a 2019 adeiladwyd cyfanswm o 16,521 o anheddau newydd yng Nghaerdydd sy'n cynrychioli 40% o'r gofyniad annedd cyffredinol.

2.56. Fodd bynnag, mae'r gwaith adeiladu bellach wedi dechrau neu ar fin dechrau ar y rhan fwyaf o'r safleoedd tai strategol yn dilyn yr ymagwedd uwchgynllunio a'r cynlluniau seilwaith fel y'u nodir yn y cynllun ac felly disgwylir y bydd nifer y tai sy'n cael eu cwblhau dros y 6 blynedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun yn cynyddu'n sylweddol.

2.57. **Tai Fforddiadwy** - O ran darparu tai fforddiadwy, mae'r cynllun yn gosod targed ar gyfer darparu 6,646 o unedau fforddiadwy ar gyfer y 12 mlynedd rhwng 2014 a 2026, gyda tharged interim yn yr AMB i ddarparu 1,942 o anheddau fforddiadwy erbyn 2019.

2.58. Mae data monitro o'r 3^{ydd} AMB yn nodi bod 1,082 o unedau fforddiadwy wedi'u darparu yn 2019, sy'n cynrychioli 25% o'r unedau a gwblhawyd yn gyffredinol. Er bod hyn yn llai na'r targed rhifiadol, fel yr amlygwyd uchod mae'n adlewyrchu'r cynnydd arafach na'r disgwyl o ran dyraniadau tai strategol yn cael eu cyflawni. O ystyried y cyfraddau cwblhau cyffredinol isel dros y blynyddoedd blaenorol, byddai'n afrealistig o dan yr amgylchiadau hyn i ddisgwyl unrhyw gyfraniad tai fforddiadwy sylweddol uwch sy'n anochel yn adlewyrchu canran o nifer y rhai cyffredinol a gwblhawyd. Fel y nodir uchod, mae'r gwaith adeiladu bellach wedi dechrau neu ar fin dechrau ar y rhan fwyaf o'r safleoedd tai strategol yn dilyn yr ymagwedd uwchgynllunio a'r cynlluniau seilwaith fel y'u nodir yn y cynllun ac felly disgwylir y bydd nifer y tai fforddiadwy sy'n cael eu cwblhau dros y 6 blynedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun yn cynyddu'n sylweddol. Mae cwblhau tai fforddiadwy hefyd yn cyflymu o ran rhaglen adeiladu mewnol y Cyngor gyda 170 o unedau'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd a 1,700 arall ar y gweill o ran cynlluniau a gadarnhawyd.

Cludiant - Mae data a gasglwyd ar gyfer y 4ydd AMB sy'n ymwneud â theithio drwy dulliau cynaliadwy yn adlewyrchu'r amrywiadau fel y dangosir mewn tueddiadau yn y gorffennol dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae hyn yn dangos bod tueddiadau teithio cynaliadwy wedi parhau i gynyddu dros y 10 mlynedd diwethaf ar gyfer gwaith, siopa a hamdden, er bod y tueddiadau'n dangos gostyngiad bach ar gyfer addysg.

Bu alldro cadarnhaol mewn teithio cynaliadwy dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r cynnydd targed o 1% wedi'i gyflawni at bob un o'r dibenion teithio, gyda thwf sylweddol yn arbennig o amlwg ar gyfer teithiau i'r Gwaith (newid modd o +7.2%). O ran dulliau teithio cynaliadwy, gwnaed cynnydd sylweddol eleni o ran cyrraedd targedau defnyddio bysiau gyda'r cynnydd cyntaf a gofnodwyd yng nghanran y bobl sy'n teithio ar fws at bob diben teithio, gyda'r defnydd o fysiau ar gyfer gwaith a siopa (canol y ddinas) yn arbennig wedi profi twf sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (+5.3%). Mae tueddiadau hirdymor ar gyfer beicio, defnyddio trenau yn dangos cynnydd sylweddol at bob diben teithio. Mae cerdded wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf at bob diben teithio, ac eithrio addysg ac mae'n dangos tuedd tymor hwy mwy amrywiol yn gyffredinol.

Ar hyn o bryd, heb gyflwyno tai newydd yn sylweddol a darparu seilwaith trafndiaeth cynaliadwy, cam cynnar darpariaeth y Metro ynghyd â gweithredu mentrau ehangach parhaus y Cyngor, mae'n rhy gynnar i ddod i unrhyw gasgliadau pendant o ran cyflawni polisi, yn enwedig o gofio bod y targed rhaniad moddol 50:50 yn ymwneud â 2026.

Bydd AMBau yn y dyfodol yn darparu diweddariadau blynyddol rheolaidd ffurfiol. Fodd bynnag, bydd yr ymagwedd uwchgynllun ynghyd â Chytundebau Adran 106 sydd eisoes wedi'u sicrhau yn gwella'r ddarpariaeth fesul cam o gefnogi seilwaith trafndiaeth yn y dyfodol ynghyd â mesurau eraill megis amlder cynyddol gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus a darparu tocynnau bws i breswylwyr newydd.

Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr - bydd gwaith a wnaed yn flaenrol ar nodi safleoedd i ddiwallu'r angen a ddangoswyd am safleoedd parhaol a dros dro i Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei ddatblygu yn yr adolygiad o'r CDLI a chaiff ei lywio drwy baratoi Asesiad o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig. O ran safleoedd tramwy, ystyrir mai'r ffordd orau o ystyried y rhain fyddai ar sail ranbarthol, gan ofyn am gydweithio ag awdurdodau lleol cyfagos drwy broses adolygu'r CDLI.

Canllawiau Cynllunio Atodol – Gwnaed cynnydd sylweddol o ran cynhyrchu rhaglen o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) newydd ac ers mabwysiadu'r CDLI mae 18 o Ganllawiau Cynllunio Lleol wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor i gefnogi'r polisiâu yn y Cynllun mabwysiedig ac mae Cynllun Seilwaith Caerdydd yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd.

Newidiadau – mae'r adolygiad cyd-destunol yn amlygu newidiadau sylweddol yn y fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi esblygu'n sylweddol dros y pedwar cyfnod monitro diwethaf. Yn benodol, mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC, Argraffiad 10, Rhagfyr 2018) sydd yn ei dro yn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r fframwaith polisi lefel uchel. Ac er mwyn helpu'r ddinas i wella o bandemig Covid bydd angen sicrhau bod y cynllun yn ymateb i'r 8 blaenoriaeth a'r camau gweithredu a nodir yn Adeiladu Lleoedd Gwell.

Goblygiadau sy'n deillio o Bandemig Covid

- 2.65 Dechreuodd y Cyngor y broses o adolygu'r CDLI ym mis Tachwedd 2019 a chyhoeddi Adroddiad Adolygu drafft ar gyfer ymgynghoriad ym mis Ionawr 2020. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl adrodd yn ôl i'r Cyngor ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad oherwydd pandemig Covid ym mis Mawrth 2020 ac er bod effeithiau pandemig COVID-19 yn dal i gael eu deall, mae'n amlwg y bydd yr argyfwng hwn yn cael effaith sylweddol ar y ddinas wrth edrych ymlaen.
- 2.66 O ystyried hyn, mae'n amlwg bod angen ailymweld â'r canfyddiadau a nodir yn yr Adroddiad Adolygu er mwyn ystyried effeithiau sylweddol tebygol COVID-19. Bydd y gwaith hwn yn llywio'r adolygiad o'r cynllun yn uniongyrchol ac yn nodi pa sail dystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen ar y Cyngor i ymateb i'r effeithiau hyn a sicrhau bod strategaeth y cynllun yn gadarn ac yn gallu ymateb i'r heriau a godwyd gan yr argyfwng presennol.
- 2.67 Fel y nodir uchod, mae effeithiau'r pandemig yn dal i gael eu deall yn llawn ond mae'r rhestr ganlynol yn darparu asesiad defnyddiol o'r materion y bydd angen eu hystyried ac a gaiff eu hystyried yn yr adolygiad arfaethedig o'r CDLI

- Yr effaith ar yr economi a diweithdra cynyddol
- Llai o alw am ofod swyddfa traddodiadol a mwy o alw am arwynebedd llawr y sector logisteg
- Cynnydd yn yr angen am Dai Fforddiadwy
- Yr effaith ar fanwerthu ar y stryd fawr
- Yr effaith ar rôl canol y ddinas
- Yr effaith ar hamdden, defnyddiau a arweinir gan brofiad a chyfleusterau cymunedol
- Yr effaith ar y defnydd o'r rhwydwaith ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus yn sgil y newidiadau hirdymor mewn patrymau cymudo a theithio
- Newidiadau hirdymor i ddulliau teithio fel mwy o gerdded a beicio
- Pwysigrwydd cynyddol mynediad i fannau agored
- Yr effaith ar hyfywedd cynlluniau a'r potensial i sicrhau rhwymedigaethau cynllunio.
- Yr angen i gynnal ansawdd aer gwell
- Yr angen i helpu adferiad gwyrdd a chyflawni'r targedau di-garbon yr agyfwng hinsawdd
- Yr angen i ddarparu dinas GLYFAR i fanteisio ar ddatblygiad technolegol
- Yr angen i ddarparu 'seilwaith hanfodol' mewn modd cyson a chydgyssylltiedig.
- Yr angen i sicrhau bod adolygiad y CDLI yn ystyried gwaith parhaus y Cyngor ar 'Cynllun Adfer y Ddinas' a 'Gweledigaeth y Ddinas'

Casgliadau

Bydd proses y CDLI Newydd yn asesu goblygiadau'r materion hyn yn llawnach a byddai'n amhriodol dod i gasgliadau ar sut rydym yn eu datblygu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n amlygu'r angen dybryd i adolygu'r cynllun er mwyn ymateb i'r materion hyn a'r 8 blaenoriaeth a cham gweithredu a nodir yn Adeiladu Lleoedd Gwell a helpu i ddarparu catalydd ar gyfer adfer y ddinas o'r pandemig.

3. Adolygiad o'r CDLI a'r newidiadau posibl sydd eu hangen

Gweledigaeth y CDLI

- 3.1. Er mwyn mynd i'r afael â materion allweddol ac arwain a rheoli datblygiad yn y dyfodol, nododd y CDLI weledigaeth glir o sut y dylai'r Ddinas edrych yn 2026. Felly, un agwedd bwysig ar yr adolygiad o'r CDLI fydd asesu i ba raddau y dylid diweddarau gweledigaeth y Cynllun gan ystyried newidiadau ers mabwysiadu'r Cynllun. Yn benodol, deilliodd Gweledigaeth y CDLI o'r Weledigaeth fel y nodir yn y Strategaeth 10 mlynedd, 'Beth sy'n Bwysig' (2010-2020) ac mae'n nodi:

Erbyn 2020...bydd Caerdydd yn brifddinas Ewropeaidd penigamp gydag ansawdd bywyd rhagorol wrth galon dinas-ranbarth sy'n ffynnu'.

3.2. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth a nodir yn y Strategaeth 'Beth sy'n Bwysig', nododd y saith canlyniad strategol canlynol:

- Pobl yng Nghaerdydd yn iach
- Mae i Gaerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy
- Mae pobl Caerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel
- Mae gan Gaerdydd economi ffyniannus a llewyrchus
- Pobl yng Nghaerdydd yn cyrraedd eu potensial llawn
- Mae Caerdydd yn lle gwyb i fyw, gweithio a chwarae ynddo
- Mae Caerdydd yn Ddinas Deg, Gyfiawn a Chynhwysol

3.3. Disodlwyd y Strategaeth "Beth sy'n Bwysig" gan Gynllun Llesiant Lleol (Cytunwyd ym mis Mai 2018) sy'n un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

3.4. Mae'r broses adolygu yn gyfle amserol i ystyried goblygiadau'r cyd-destun newydd ar gyfer pennu'r weledigaeth fwyaf priodol ar gyfer y dyfodol.

Amcanion y CDLI

3.5. Cyflawnir Gweledigaeth y CDLI drwy 4 Amcan Strategol (a 23 o amcanion penodol) sy'n ceisio ymateb i'r anghenion economaidd a chymdeithasol a ddangosir ond mewn ffordd sy'n gydgyssylltiedig, yn parchu ac yn gwella amgylchedd Caerdydd ac yn nodi fframwaith ar gyfer cyflawni cymdogaethau cynaliadwy'r dyfodol. Mae'r pedwar amcan strategol hyn wrth wraidd y CDLI: Dyma nhw:

1. Ymateb i anghenion economaidd sy'n seiliedig ar dystiolaeth a darparu'r seilwaith angenrheidiol i sicrhau datblygiad;
2. Ymateb i anghenion cymdeithasol a ddangoswyd;
3. Darparu ar gyfer anghenion economaidd a chymdeithasol mewn ffordd gydgyssylltiedig sy'n parchu ac yn gwella amgylchedd Caerdydd; a
4. Creu cymdogaethau cynaliadwy sy'n rhan o ddinas gynaliadwy.

Asesu Amcanion presennol y CDLI yn erbyn y Nodau Llesiant

3.6. Mae'r asesiad o gydweiddoldeb rhwng 4 Amcan y CDLI Strategol (a'r 37 amcan penodol) a'r 7 Nod Llesiant yn dangos bod Amcanion presennol y CDLI yn cyfrannu at gyflawni ystod o nodau Llesiant ac amcanion unigol gan gyflawni nodau lluosog. Nid oes gwrthdaro amlwg rhwng yr Amcanion a'r Nodau Llesiant. Fodd bynnag, bydd y broses adolygu yn caniatáu i asesiad manylach gael ei gynnal ac yn llywio'r amcanion mwyaf priodol a diweddaraf.

3.7. Mae'r tabl isod yn darparu asesiad o Amcanion y CDLI yn erbyn Nodau Llesiant.

Saith nod Llesiant

Cymru Lewyrchus
Cymru Wydn
Cymru Iachach
Cymru Fwy Cyfartal
Cymru o Gymunedau Cydlynol
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang

Amcanion y CDLI	Nodau Llesiant						
	Yellow	Orange	Red	Grey	Dark Blue	Light Blue	Green
1. Ymateb i anghenion economaidd sy'n seiliedig ar dystiolaeth a darparu'r seilwaith angenrheidiol i gyflawni datblygiad	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green
<i>1a. Ymateb yn effeithiol i rôl Caerdydd fel prifddinas i Gymru, cartref y Llywodraeth Genedlaethol a chanol y ddinas-ranbarth o ran darparu ystod a dewis o gyfleoedd economaidd a fydd yn sbarduno ffyniant y rhanbarth.</i>	Green	White	Green	Green	Green	Green	White
<i>1b. Manteisio i'r eithaf ar botensial economaidd canol dinas Caerdydd fel cyfle mawr yn y sector ariannol a gwasanaethau sy'n adeiladu ar ei safle wrth ymyl canolfan drafnidiaeth o arwyddocâd cenedlaethol a rhanbarthol ac sydd ar gael yn rhwydd o bob ardal yn y ddinas ac sydd wedi'i chysylltu'n dda â dinasoedd eraill y Deyrnas Gyfunol.</i>	Green	White	Green	Green	Green	White	White
<i>1c. Cynnal a gwella bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd canol y ddinas fel cyrchfan fanwerthu a diwylliannol fawr ac fel lle i weithio, ymweld a byw ynddo.</i>	Green	White	Green	Green	Green	Green	White
<i>1ch. Parhau i adfywio ardal Bae Caerdydd yn llwyddiannus, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer adeiladau masnachol o safon a datblygiadau pellach, yn enwedig datblygiadau ar lannau dŵr ac afon a all ddarparu amgylcheddau deniadol a nodedig.</i>	Green	White	Green	Green	Green	White	White
<i>1d. Hyrwyddo clystyrau o sectorau arbenigol ac arbenigedd ymchwil a datblygu gan gynnwys y sectorau allweddol canlynol: TGCh; Ynni a'r amgylchedd; Deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch; Diwydiannau creadigol; Gwyddorau bywyd; a Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol.</i>	Green	White	Green	Green	Green	White	White

Amcanion y CDLI	Nodau Llesiant						
	Yellow	Orange	Red	Dark Red	Dark Blue	Blue	Light Blue
1dd. Sicrhau bod ystod a dewis o dir cyflogaeth ac adeiladau busnes mewn lleoliadau cynaliadwy ledled y ddinas yn cael eu darparu i gynorthwyo cystadleurwydd economaidd, annog entrepreneuriaeth, hyrwyddo twf busnesau cynhenid o bob math a maint a denu mewnfuddsoddiad.							
1e. Helpu i hyrwyddo Caerdydd fel cyrchfan fawr i dwristiaid gan gynnwys darparu amrywiaeth o gyfleusterau twristiaeth a llety o ansawdd uchel i ymwelwyr.							
1f. Creu amgylchedd ffisegol ac economaidd sy'n datblygu, yn denu ac yn cadw gweithwyr, busnesau ac entrepreneuriaid medrus i Gaerdydd ynghyd â sicrhau'r cysylltiadau mwyaf posibl â Phrifysgolion a chefnogi sgiliau a mentrau cynhenid.							
1ff. Mesur y seilwaith strategol hanfodol sydd ei angen i wireddu dyheadau datblygu a nodi mecanweithiau clir ar gyfer cyflawni gan gynnwys atebion trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer safleoedd strategol.							
1g. Sefydlu Caerdydd fel dinas deithio gynaliadwy drwy leihau'r angen i deithio, cynyddu'r defnydd o ddulliau a rhwydweithiau teithio cynaliadwy (yn enwedig cerdded a beicio), lleihau'r defnydd o gar preifat a gwella canolfan trafnidiaeth allweddol y ddinas sydd wedi ei lleoli lle mae'r orsaf fysiau a'r orsaf drenau canolog yn gyfagos.							
1ng. Diogelu adnoddau mwynau presennol a sicrhau cyflenwad digonol o agregau calchfaen yng ngogledd-orllewin y ddinas ar gyfer y diwydiant adeiladu a hyrwyddo eu defnydd effeithlon a phriodol, gan gynnwys defnyddio agregau wedi'u hailgylchu lle y bo'n bosibl.							
1h. Cefnogi dulliau casglu ac ailgylchu cynaliadwy ar gyfer Gwastraff Trefol drwy gynnal a gwella rhwydwaith integredig o gyfleusterau yng Nghaerdydd.							
1i. Arwain a chymryd rhan yn sicrhau cyfleusterau rhanbarthol ar gyfer trin a gwaredu Gwastraff Trefol yn gynaliadwy yn unol â'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol ac mewn modd sy'n dilyn yr hierarchaeth wastraff sy'n ceisio sicrhau'r gostyngiad mwyaf posibl mewn gwastraff yn y lle cyntaf ac wedyn aildddefnyddio, adfer ac ailgylchu opsiynau cyn ystyried gwaredu deunydd gwastraff.							
1l. Hwyluso rhwydwaith integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff cynaliadwy masnachol a diwydiannol sy'n gyson ag anghenion ardal de-ddwyrain Cymru ac mewn modd sy'n dilyn yr hierarchaeth wastraff sy'n ceisio sicrhau'r gostyngiad mwyaf posibl mewn gwastraff yn y lle cyntaf ac wedyn aildddefnyddio, adfer ac ailgylchu opsiynau cyn ystyried gwaredu deunydd gwastraff.							
2. Ymateb i anghenion cymdeithasol a amlygwyd							
2a. Darparu cartrefi newydd sydd eu hangen i gefnogi datblygiad economaidd y ddinas ac ymateb i newid yn y boblogaeth, mewnfudo parhaus a dangos tystiolaeth o'r galw am dai fforddiadwy a thai teuluol fel y gellir mynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol.							

Amcanion y CDLI	Nodau Llesiant						
	Yellow	Orange	Red	Dark Red	Dark Blue	Blue	Light Blue
2b. Darparu ystod a dewis o gartrefi newydd o wahanol ddeiliadaeth, math a lleoliad sy'n diwallu anghenion penodol megis darparu tai fforddiadwy, llety i deuluoedd, tai i'r henoed, pobl anabl a myfyrwyr a lleiniau ar gyfer y gymuned sipsiwn a theithwyr.							
2c. I wneud y gorau o'r stoc adeiladau sy'n bodoli eisoes drwy fentrau ailwampio, ôl-osod a thai gwag.							
2ch. Cyflwyno newidiadau i amgylchedd a chymdogaethau Caerdydd sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, hybu iechyd da a galluogi ffyrdd iachach o fyw i gael eu harwain gan boblogaeth y ddinas yn unol â statws Caerdydd fel 'Dinas Iach' Sefydliad Iechyd y Byd.							
2d. Cyflwyno newidiadau i amgylchedd Caerdydd sy'n creu dinas fwy diogel ac yn lleihau tebygolrwydd, ofn a chanlyniadau troseddu.							
2dd. Creu amgylchedd sy'n fwy hygyrch i bob grŵp mewn cymdeithas fel y gall pawb ddefnyddio a mwynhau cyfleoedd cyflogaeth, cyfleusterau a gwasanaethau'r ddinas yn haws.							
2e Manteisio i'r eithaf ar y rôl amlswyddogaethol a chwaraeir gan barciau, mannau agored a rhandiroedd Caerdydd ynghyd â gwella eu hygyrchedd i'r gymuned gyfan.							
3f. Cydnabod, cefnogi a gwella'r rôl allweddol a chwaraeir gan Ganolfannau Ardal, Lleol a Chymdogaethol presennol fel canolfannau lleol hygyrch sy'n darparu gwasanaethau cymunedol, siopau lleol, dewisiadau bwyd iach, busnesau, cyflogaeth a mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus.							
2ff. Cefnogi'r gwaith o adfywio cymdogaethau lleol gan gynnwys lleihau anghydraddoldebau, yn enwedig ardaloedd sy'n profi lefelau uchel o amddifadedd, ardaloedd sy'n agored i ddirywiad ac ardaloedd â chyfleoedd i newid.							
2g. Sicrhau bod y cyfleusterau addysg a hyfforddiant angenrheidiol yn cael eu darparu a'u bod yn hygyrch i bawb: i adeiladu dyfodol cryf i blant, darparu ystod amrywiol o gyfleoedd dysgu i bawb a chynorthwyo cynnydd economaidd drwy ddatblygu'r sgiliau gofynnol.							
2ng. Datblygu cyfleusterau diwylliannol, hamdden a chwaraeon newydd i ddiwallu anghenion a gwella rôl Caerdydd fel prif gyrchfan ddiwylliannol a chwaraeon.							
2h. Sicrhau bod y cyfleusterau cymunedol a diwylliannol angenrheidiol (canolfannau cymunedol, siopau â dewisiadau bwyd iach, cyfleusterau ieuencid, gofal plant, adeiladau ffydd, canolfannau iechyd ac ati) yn cael eu darparu sy'n hygyrch i bawb mewn ardaloedd sy'n ddifreintiedig.							
2i. Mynd i'r afael â diweithdra cynyddol a darparu cyfleoedd gwaith lleol hygyrch, yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf anghenus.							
2l. Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, cyfle cyfartal a mynediad i bawb.							
5. Darparu anghenion economaidd a chymdeithasol mewn ffordd gydgysylltiedig sy'n parhau amgylchedd Caerdydd ac yn ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd.							

Amcanion y CDLI	Nodau Llesiant						
	Yellow	Orange	Red	Dark Red	Dark Blue	Blue	Light Blue
3a. Lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy leihau'r galw am ynni a chynyddu'r cyflenwad ynni adnewyddadwy.		Green	Green				Green
3b. Sicrhau bod Caerdydd yn addasu i effeithiau disgwylieedig llawn y newid yn yr hinsawdd a bod datblygiadau a seilwaith newydd wedi'u cynllunio i wrthsefyll canlyniadau posibl.		Green	Green				Green
3c. I amddiffyn, rheoli a gwella asedau amgylcheddol naturiol Caerdydd.		Green	Green				Green
3ch. Gwarchod a gwella asedau adeiledig a hanesyddol Caerdydd sy'n diffinio cymeriad nodedig ac sy'n adlewyrchu ei datblygiad yn y gorffennol.		Green	Green				Green
3d. Wrth nodi safleoedd newydd i ddiwallu anghenion economaidd/cymdeithasol, dilyn cyfres gan ddechrau yn gyntaf gyda gwneud y gorau o safleoedd tir llwyd, yna nodi safleoedd tir glas yr ystyrir		Green	Green				Green
3dd. Rhoi sylw llawn i berygl llifogydd wrth ystyried derbynioldeb cynigion datblygu ac ystyried mesurau lliniaru ac ymaddasu.		Green	Green				Green
3e. Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i greu amgylchedd glanach a mwy deniadol sy'n gwella ansawdd bywyd ac yn helpu Caerdydd i ddod yn brifddinas Ewropeaidd o'r radd flaenaf.		Green	Green	Green	Green	Green	Green
6. Creu cymdogaethau cynaliadwy sy'n rhan o ddinas gynaliadwy		Green	Green	Green	Green	Green	Green
4a. Sicrhau bod pob ardal ddatblygu newydd (boed yn faes glas neu'n dir llwyd) yn creu cymdogaethau cynaliadwy.		Green	Green	Green	Green	Green	Green
4b. Manteisio ar gyfleoedd i gymhwyso'r egwyddorion uchod i gymdogaethau sy'n bodoli eisoes er mwyn creu dinas fwy cynaliadwy.		Green	Green	Green	Green	Green	Green

Strategaeth a Pholisiau'r CDLI

3.8. Adolygwyd strategaeth a pholisiau'r CDLI gan ystyried y canlynol:

- Canfyddiadau Adroddiadau Monitro Blynyddol y CDLI;
- Newidiadau cyd-destunol sylweddol sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r Cynllun, gan gynnwys newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth genedlaethol a diweddariadau i'r sylfaen dystiolaeth;
- Goblygiadau sylweddol yn deillio o bandemig Covid; ac
- Ymgynghori mewnol â swyddogion arbenigol perthnasol.

3.9. Mae hyn yn rhoi trosolwg o p'un a yw polisi/dyraniad yn gweithio'n effeithiol, a yw'n debygol y bydd angen unrhyw ddiwygiadau ac a ddylid dileu unrhyw bolisiau fel rhan o broses adolygu'r Cynllun. Nid ystyrir bod yr asesiad polisi a gynhaliwyd hyd yma yn derfynol a rhoddir ystyriaeth bellach i'r angen i ddiwygio polisiau'r Cynllun fel rhan o'r broses adolygu.

3.10. Bydd angen i'r adolygiad o'r Cynllun hefyd ystyried goblygiadau cyfnod Cynllun estynedig. Mae'r Cynllun presennol yn rhedeg hyd at 2026, gyda'r Cynllun Newydd yn debygol o ymestyn i 2036 (cyfnod y cynllun 2021-2036). Bydd ymestyn cyfnod y Cynllun yn arwain at angen diwygiedig am anheddau a gofyn am safleoedd newydd ar gyfer anheddau i'r farchnad a rhai fforddiadwy. Bydd angen i'r adolygiad ystyried fersiwn ddiwygiedig Polisi Cynllunio Cymru, yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf a'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diwygiedig, yn ogystal â diweddariadau eraill i'r sail dystiolaeth. At hynny, gall y broses adolygu hefyd archwilio'r ffyrdd y gallai cynllun newydd ymateb i heriau presennol fel y pandemig Covid, yr argyfwng hinsawdd, argyfyngau gordewdra a materion eraill a nodir isod. Bydd angen i'r diweddariadau a'r materion hyn gael eu hystyried yn drylwyr a mynd i'r afael â hwy mewn modd cynhwysfawr.

3.11. Trafodir y meysydd polisi allweddol yr ystyrir eu bod yn debygol o fod angen eu diwygio, yn seiliedig ar yr asesiad adolygu polisi, yn fanylach isod.

Lefel twf, cyflawniad, dosbarthiad gofodol a dyraniadau (KP1, KP2 A-H, H1)

3.12. Lefel arfaethedig y ddarpariaeth dai yn y CDLI yw 41,415 o anheddau (Polisi KP1) dros gyfnod y Cynllun 2006-2026. Cafodd y ffigur hwn ei lywio'n bennaf gan amcanestyniadau aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru ar y pryd, a oedd yn rhagweld cynnydd o 33% yn y boblogaeth dros gyfnod y Cynllun. Mae amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd swyddogol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ers hynny wedi dangos lefelau twf is, gyda'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf yn 2018 yn dangos lefel cynnydd sydd 8% yn is yn y boblogaeth a 10% yn is o ran gynydd yn lefel yr aelwydydd.

3.13. Er bod lefel y twf yn amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru wedi gostwng, rhagwelir y bydd Caerdydd yn dal i brofi twf dros y blynyddoedd i ddod. Dangosir hyn gan y ffaith bod disgwyl i boblogaeth Caerdydd gynyddu 8% hyd at 2036, hyd yn oed gan ddefnyddio'r amcanestyniadau diweddaraf hyn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r twf hwn yn cael ei ysgogi gan newid naturiol – y gwahaniaeth rhwng genedigaethau a marwolaethau a lefelau ymfudo net – y gwahaniaeth rhwng mudo i mewn ac allan. Er bod twf oherwydd newid naturiol yn haws ei ragweld mae twf o ganlyniad i fudo yn fwy anwadad ac anodd ei ragweld.

3.14. Bydd y Cyngor yn comisiynu ymgynghorwyr arbenigol i roi cyngor ar y lefel fwyaf priodol o dwf ar gyfer cyfnod Cynllun sydd y tu hwnt i ddyddiad gorffen y CDLI presennol. Bydd angen i'r gwaith hwn hefyd ystyried effaith pandemig Covid ar dwf tai yn y ddinas yn y dyfodol.

3.15. O ran dosbarthiad gofodol, mae'r CDLI yn cydnabod y bydd safleoedd tir llwyd yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth ddarparu safleoedd ar hap ac yn cynnig bod safleoedd tir llwyd yn cyfrannu dros hanner y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae'r CDLI hefyd yn cydnabod mai prin yw'r cyflenwad o dir llwyd. Felly, er mwyn darparu catalydd

i'r farchnad dai leol a chydabod y rôl y gall safleoedd tir glas ei chwarae wrth gyflwyno lefelau uchel o dai fforddiadwy a theuluol a darpariaeth ehangach o seilwaith strategol, mae'r CDLI yn cynnig dyraniadau tai maes glas strategol o amgylch ymyl y ddinas, er mwyn darparu cyfanswm o 13,450 o gartrefi erbyn 2026 (Polisiâu KP2 (C) i KP2 (G)).

- 3.16. Gall ystyriaethau yn y dyfodol fel rhan o'r broses adolygu hefyd gael eu llywio'n ddefnyddiol gan dystiolaeth ynglŷn â chyflawni twf. Yn hyn o beth, mae'n amlwg bod y dull a arweinir gan y Cynllun bellach yn dechrau gyrru'r gwaith o ddarparu cartrefi newydd yn llwyddiannus ar lefel nas gwelwyd dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r 1,444 a gwblhwyd yn 2018/19 (43% yn uwch na 2017/18) yn gwrthgyferbynnu â'r 9 mlynedd blaenorol lle'r oedd 725 o unedau'r flwyddyn ar gyfartaledd, heb unrhyw flwyddyn yn uwch na 1,000 o unedau ar gyfer y cyfnod hwn.
- 3.17. Mae'r data ar ddarparu tai yn dangos yr 'oedi' rhwng mabwysiadu'r Cynllun a chartrefi sy'n cael eu cwblhau ar safleoedd newydd a ddyrennir yn y Cynllun. Oherwydd cyfuniad o ddwyn safle ynghyd, ffactorau cyfreithiol a logistaidd a brofir gan dirfeddianwyr/datblygwyr ynghyd â'r amser sydd ei angen i sicrhau'r caniatâd cynllunio a mabwysiadu angenrheidiol, mae'r llwybrau cyflenwi yn arafach na'r disgwyl yn wreiddiol. Mae hyn yn cynnwys yr amser a dreulir yn sicrhau'r Cytundebau Adran 106 cysylltiedig sy'n cyflawni dyheadau'r Cyngor yn llawn fel y nodir yn y CDLI. Yn gyffredinol, dros y 13 mlynedd rhwng 2006 a 2019 adeiladwyd cyfanswm o 16,521 o anheddau newydd yng Nghaerdydd sy'n cynrychioli 40% o'r gofyniad annedd cyffredinol.
- 3.18. Fodd bynnag, mae'r gwaith adeiladu bellach wedi dechrau neu ar fin dechrau ar y rhan fwyaf o'r safleoedd tai strategol yn dilyn yr ymagwedd uwchgynllun a chynlluniau seilwaith fel y nodir yn y cynllun ac felly disgwylir y bydd nifer y tai sy'n cael eu cwblhau dros y 6 blynedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun yn cynyddu'n sylweddol ar ôl caniatáu oedi ychwanegol o ganlyniad i Covid.
- 3.19. Gall tystiolaeth a gafwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai hefyd lywio'r broses o adolygu'r cynllun. Dangosir data o'r 11 mlynedd diwethaf isod ac mae'n dangos nad yw Caerdydd wedi cyflawni cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai dros y cyfnod hwn. Fodd bynnag, ers mabwysiadu'r cynllun yn 2016, mae'r banc tir cyffredinol, gan gynnwys anheddau yr amcangyfrifir y cânt eu cwblhau y tu hwnt i 5 mlynedd, wedi cynyddu'n sylweddol i tua 14,363. Er gwaethaf y cyflenwad tir ar gyfer tai sy'n 2.9 blwyddyn ar hyn o bryd, mae gan Gaerdydd fanc tir cyffredinol fawr o 24,009 o anheddau gyda data o'r fath yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth i lywio'r broses adolygu.

Tabl 1: Cyflenwad Tir Tai Caerdydd Ebrill 2009 i Ebrill 2018

Blwyddyn	Nifer Blynnyddoedd o Gyflenwad
2009	4.5
2010	3.4
2011	2.3
2012	2.9
2013	3.2
2014	3.6
2015*	Dim Cynllun mabwysiedig ar waith
2016	3.8
2017	3.6
2018	3.5
2019	2.9

3.20. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth a grynhoir uchod yn dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud nawr ac, yn bwysig, mae'r strategaeth tai gofodol yn gadarn ac yn glynu wrth yr ymagwedd uwchgynllun a'r cynllun seilwaith sydd wedi'i wreiddio yn y cynllun.

3.21. Fodd bynnag, mae'r broses adolygu yn rhoi cyfle i ailedrych ar y lefelau twf mwyaf priodol yn y dyfodol am gyfnod Cynllun estynedig ac mae'n caniatáu dadansoddiad trylwyr o'r holl ffactorau perthnasol eraill megis cyflawni, capasiti trefol, dull gofodol a sut y byddai lefel y twf yn elfen allweddol o strategaeth gyffredinol y Cynllun. Fel y nodir uchod, mae'n amlwg y bydd angen i'r broses hon ystyried goblygiadau pandemig Covid ar gyfer lefelau twf tai dros gyfnod estynedig y Cynllun.

Tai Fforddiadwy (H3)

3.22. O ran darparu tai fforddiadwy, Polisi KP13: Mae ymateb i Anghenion Cymdeithasol tystiolaethol yn gosod targed ar gyfer darparu 6,646 o unedau fforddiadwy i'w darparu ar gyfer y 12 mlynedd rhwng 2014 a 2026, gyda tharged interim yn yr AMB i ddarparu 1,942 o anheddau fforddiadwy erbyn 2019.

3.23. Mae data monitro yn dangos bod 1,082 o unedau fforddiadwy wedi'u darparu yn 2019, sy'n cynrychioli 25% o'r rhai a gwblhawyd yn gyffredinol. Er bod hyn yn llai na'r targed rhifiadol, fel yr amlygwyd uchod mae'n adlewyrchu'r cynnydd arafach na'r disgwyl o ran dyraniadau tai strategol yn cael eu cyflawni. O ystyried y cyfraddau cwblhau cyffredinol isel dros y blynnyddoedd blaenorol, byddai'n afrealistig o dan yr amgylchiadau hyn i ddisgwyl unrhyw gyfraniad tai fforddiadwy sylweddol uwch sy'n anochel yn adlewyrchu canran o nifer y rhai cyffredinol a gwblhawyd.

- 3.24. Yn galonogol, mae'r safleoedd strategol dynodedig yn sicrhau'r 30% o dai fforddiadwy gofynnol drwy roi caniatâd cynllunio. Mae hyn yn cyd-fynd â'r polisi a bennwyd yn y CDLI ond nid yw'r cwblhau ffisegol wedi'i weithredu'n llawn eto mewn brics a mortar.
- 3.25. Mae'r gwaith adeiladu bellach wedi dechrau neu ar fin dechrau ar y rhan fwyaf o'r safleoedd tai strategol felly disgwylir i'r gwaith o gwblhau tai fforddiadwy dros y 6 blynedd sy'n weddill gynyddu'n sylweddol. Cefnogir y casgliad hwn gan y ffaith bod 4,790 o dai fforddiadwy ychwanegol yn y banc tir, y mae disgwyl iddynt ddod ger bron dros y 7 mlynedd nesaf.
- 3.26. Yn ogystal, mae gan y Cyngor darged o ddarparu 2,000 o gartrefi Cyngor, gyda 1,000 o'r rhain wedi'u rhaglenu i'w cyflawni erbyn mis Mai 2022. Cyflawnir rhan o'r targed hwn drwy Raglen Partneriaeth Caerdydd, sydd â tharged o ddarparu 1,500 o gartrefi yn y 10 mlynedd nesaf (bydd 600 o'r rhain yn gartrefi cyngor). Hyd yma mae 109 o gartrefi'r Cyngor wedi'u cwblhau ac mae 191 arall wrthi'n cael eu hadeiladu.
- 3.27. I ffwrdd o'r Safleoedd Strategol, cyflawnwyd ystod eang o ganrannau o dai fforddiadwy ar safleoedd tir llwyd. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyn Ganolfan Highfields Road, Heol Allensbank (24%), Rhos Fid Foel, Heol y Gogledd (23%), Cyn dafarn y Wharf, Glanfa'r Iwerydd (17%), Cwr y Brifddinas (20%) a Pharc Diwydiannol Avenue (20%).
- 3.28. Mae mater y gellir ei asesu ymhellach fel rhan o'r broses adolygu yn ymwneud ag effaith ffactorau hyfywedd sy'n tanseilio gallu rhai safleoedd/cynigion i ddarparu naill ai darpariaeth ar y safle neu gyfraniadau oddi ar y safle. Er bod safleoedd strategol y tir glas a ddyrennir yn y CDLI â gofyniad clir a arweinir gan Gynllun i gyflawni darpariaeth wedi bodloni disgwyliadau'n llwyddiannus, mae rhai cynigion ar hap ar gyfer tir llwyd yn defnyddio tystiolaeth hyfywedd i gyfiawnhau darpariaeth gyfyngedig neu ddim darpariaeth o gwbl (o ystyried bod y gofyniad polisi yn destun ystyriaethau hyfywedd).
- 3.29. Felly, bydd y broses adolygu yn caniatáu dadansoddiad pellach o ddata angen, yr ymateb polisi mwyaf priodol, ystyriaeth drylwyr o agweddau hyfywedd a dadansoddiad ehangach o safleoedd a allai fod yn addas i ateb y galw. Mae'n amlwg y bydd angen i'r dadansoddiad hwn ystyried goblygiadau pandemig Covid ar gyfer y cyflenwad tai fforddiadwy.

Llety Sipsiwn a Theithwyr (H7)

- 3.30. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr er mwyn sicrhau bod anghenion yn cael eu hasesu'n briodol ac y cynllunir are eu cyfer. Roedd yn ofynnol cyflwyno asesiad i Lywodraeth Cymru erbyn mis Chwefror 2016 gyda dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i wneud darpariaeth ar gyfer safle(oedd) lle mae asesiad yn nodi angen nas diwallwyd.
- 3.31. Cafodd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALIST) Caerdydd ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn 2016. I gynhoi, mae'r ALIST yn cwmpasu'r cyfnod 2016-

2026 ac yn amcangyfrif y ddarpariaeth ychwanegol o leiniau sydd eu hangen ar Sipsiwn a Theithwyr yng Nghaerdydd. Am 5 mlynedd cyntaf cyfnod cynllun ALIST, mae'n ofynnol cael 48 o leiniau ychwanegol, ac am weddill cyfnod cynllun ALIST, mae angen 24 llain ychwanegol arall. Golyga hyn cyfanswm angen dros gyfnod y CDLI yn ei gyfanrwydd hyd at 2026 o 72 llain.

- 3.32. Bydd gwaith a wnaed yn flaenorol ar nodi safleoedd i ddiwallu'r angen a ddangoswyd am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr parhaol a dros dro yn cael ei ddatblygu yn yr adolygiad o'r CDLI a chaiff ei lywio gan y gwaith o baratoi Asesiad Diwygiedig o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr. O ran safleoedd tramwy, ystyrir mai'r ffordd orau o ystyried y rhain fyddai ar sail ranbarthol, gan ofyn am gydweithio ag awdurdodau lleol cyfagos drwy broses adolygu'r CDLI.
- 3.33. Bydd angen ystyried y mater hwn ymhellach ym mhroses adolygu'r CDLI gydag angen clir i'r broses ddangos y gallu i nodi lefel briodol o angen a sut y caiff hyn ei fodloni o ran dyrannu(au) safleoedd.

Polisiau tai manwl (H2, H4-6)

- 3.34. Mae'r adolygiad o'r cynllun yn rhoi cyfle i adolygu'r polisiau hyn sy'n ymwneud â newidiadau yn y defnydd o eiddo preswyl presennol, addasiadau/ailddatblygu i ddefnydd preswyl ac is-rannu eiddo preswyl.
- 3.35. Gyda'i gilydd, mae'r polisiau hyn yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli agwedd bwysig ar y cyflenwad tai yn y ddinas a gallant helpu i gyflawni cyfraniadau tir llwyd pwysig i'r cyflenwad mewn lleoliadau cynaliadwy.
- 3.36. Mae'r broses adolygu yn caniatáu i ystyriaeth newydd o'r polisiau hyn ystyried newidiadau mewn polisi cynllunio cenedlaethol, newidiadau cyd-destunol, unrhyw newidiadau yn sylfaen dystiolaeth y CDLI a monitro penderfyniadau Rheoli Datblygu parhaus. Yn hyn o beth, mae mater is-adrannau/addasiadau i dai amlfeddiannaeth a fflatiau yn fater yr ystyrir ei fod yn haeddu dadansoddiad manwl mewn ymateb i bryderon ynghylch effaith gronol cynigion ar gymunedau lleol ac ystyriaethau amwynder meddianwyr a chymdogion. Er bod CCA ychwanegol wedi'i baratoi, nid yw penderfyniadau apêl bob amser yn cefnogi safbwynt y Cyngor felly ystyrir bod adolygiad yn amserol.

Cyflogaeth (KP9, EC1-7)

- 3.37. Polisi'r Cynllun Datblygu Lleol KP9 Ymateb i Dystiolaeth mae Anghenion Economaidd yn ymateb i rôl Caerdydd fel y prif sbardun economaidd yn ne-ddwyrain Cymru ac yn cyflawni'r dyheadau strategol ar gyfer datblygu economaidd yng Nghaerdydd ac yn ateb y galw am 40,000 o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun drwy nodi a diogelu tir cyflogaeth ac adeiladau a chyfleoedd i ddarparu'r sectorau twf economaidd allweddol.

3.38. Mae tir cyflogaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ddiogelu at ddibenion cyflogaeth, gyda Pholisïau EC1, EC3 ac EC4 a ffyniant yr economi leol yn y dyfodol yn cael ei hwyluso drwy sicrhau y gall Caerdydd gynnig amrywiaeth a dewis o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau at ddibenion cyflogaeth drwy ddyrannu Ardal Fenter Ganolog Caerdydd (Polisi KP2 (A)) ac i'r de o Barc Busnes Llaneirwg (Polisi KP2 (H)). Yn ogystal, mae polisi EC7 yn caniatáu ar gyfer cynigion cyflogaeth ar dir nad yw wedi'i nodi at ddibenion cyflogaeth sy'n darparu elfen o hyblygrwydd, pe bai galw ychwanegol am dir cyflogaeth dros gyfnod y cynllun ac a fydd yn galluogi busnesau i leoli yn y Sir yn foddhaol.

3.39. Mae dadansoddiad o ddangosyddion monitro yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020 yn dangos perfformiad cryf parhaus. Mae data ynglŷn â chreu swyddi net yn arbennig o bwysig - Mae'n ofynnol cael 40,000 o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun 2006-2026. Crëwyd 20,900 o swyddi rhwng 2006 a 2015 ac felly'r targed ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun yw 19,100 o swyddi neu 1,750 o swyddi bob blwyddyn. Ers yr AMB cyntaf (16/17) mae nifer y swyddi wedi bod yn cynyddu'n gyson gydag 8,000 o swyddi ychwanegol wedi'u darparu dros y 4 blynedd diwethaf sy'n dangos bod Polisi KP1 yn gweithio'n effeithiol.

- Mae'r tir cyflogaeth a ganiateir (hectarau) ar safleoedd dynodedig fel canran o'r holl ddyraniadau cyflogaeth yn 2.4%, ychydig yn uwch na'r 12 mis blaenorol. Er bod y nifer sy'n manteisio ar hectarau yn ymddangos yn isel, mae'r cynlluniau a ganiateir yn swyddfeydd tal dwysedd uchel, sydd â gofynion tir llai.
- Cyfanswm y swyddfeydd a gwblhawyd oedd 39,726 metr sgwâr i'w priodoli i raddau helaeth i'r cwblhau o fewn yr Ardal Fenter Ganolog. Mae 42,652 metr sgwâr arall o arwynebedd llawr swyddfa yn cael ei adeiladu a 49,328 metr sgwâr â chaniatâd cynllunio lle nad ydynt wedi dechrau eto.
- Er ei fod yn fyr o'r nod blynyddol, gwelwyd sawl cwblhad diwydiannol sylweddol, sy'n cynnwys 0.6ha ar gyfer cyfleuster cynhyrchu bragdy/prif swyddfa newydd ym Mharc Busnes Pacific.
- Ceir nifer o hawliau cynllunio cyfredol at ddefnydd diwydiannol gan gynnwys 16.5 hectar o dir ar gyfer cynllun pŵer biomas gydag adeiladau diwydiannol.
- Mae'r tir cyflogaeth a gollir i ddefnyddiau amgen wedi bod yn bennaf o ganlyniad i ddefnyddiau a ystyrir yn ddefnyddiau cyflenwol megis meithrinfa ddydd, campfeydd a defnyddiau bwyd a diod ar raddfa fach i ddiwallu anghenion y gweithlu.
- Mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ar safleoedd strategol yng ngogledd orllewin Caerdydd, rhan o ogledd ddwyrain Caerdydd a gogledd orllewin Caerdydd, fodd bynnag, nid yw elfennau cyflogaeth y cynlluniau preswyl yn bennaf hyn wedi'u cychwyn eto. Mae deialog cyn gwneud cais yn parhau o ran y safle cyflogaeth

strategol ym Mharc Busnes Lloneirwg a fydd yn llywio cyflwyniad am ganiatâd yn y dyfodol agos.

3.40. Yn gyffredinol, mae adolygiad polisi'r CDLI wedi canfod yn gyffredinol bod polisiâu cyflogaeth y Cynllun yn gweithredu'n effeithiol i alluogi datblygiad diwydiannol a busnes priodol ar draws y sir. Fodd bynnag, fel rhan o'r broses adolygu, bydd angen ystyried effeithiau pandemig Covid ar yr economi a'u gofynion o ran lleoliad, safle ac adeiladau, amcanestyniadau newydd ar gyfer y gweithlu, asesiad o ddyraniadau tir cyflogaeth cyfredol a nodi dyraniadau tir cyflogaeth newydd. Bydd angen hefyd ystyried blaenoriaethau a dyheadau economaidd hirdymor y Cyngor sy'n gysylltiedig â Bargen Dinas-ranbarth Caerdydd a Strategaeth Economaidd Caerdydd 'Adeiladu Mwy o Swyddi Gwell' drwy'r broses adolygu.

Manwerthu (Policies KP10, R1 i R8)

3.41. Polisi R1: Hierarchaeth Manwerthu yw elfen ganolog y strategaeth fanwerthu ac mae'n sefydlu hierarchaeth canolfannau yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac yn ffafrio cyfleusterau manwerthu newydd a gwell o fewn yr Ardal Siopa Ganolog ac ar raddfa briodol, o fewn canolfannau dosbarth a lleol, tra'n ceisio rheoli swm, maint a natur manwerthu y tu allan i'r canol.

- Mae'r arolwg manwerthu blynyddol diweddaraf yn nodi:
- Ardal Siopa Ganolog – cyfradd gwag yn 10.7%
- Canolfan ardal – cyfradd gwag yn 10%
- Canolfan leol – cyfradd gwag yn 8%
- Mae cyfraddau gwag yn yr Ardal Siopa Ganolog a'r Canolfannau Lleol wedi gostwng ers AMB 2017/18 ac maent yn unol â thueddiadau cenedlaethol.

3.42. Mae'r cyfraddau gwag cyfartalog hyn yn is na chyfartaledd Goad y DG o 11.8%. Mae'r cyfraddau gwag is na'r cyfartaledd yma yn awgrymu bod polisiâu manwerthu'r CDLI yn gweithio'n effeithiol a bod cydbwysedd rhesymol rhwng y cyflenwad o siopau a galw meddianwyr am le yn y canolfannau hyn. Mae presenoldeb rhai llefydd gwag mewn canolfannau yn rhoi cyfle i fusnesau newydd ymuno â'r farchnad, denu buddsoddiad a moderneiddio unedau gwag.

3.43. Bydd Astudiaeth Fanwerthu newydd yn cael ei chynnal er mwyn llywio'r CDLI diwygiedig. Bydd yr astudiaeth hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhagolygon gwariant manwerthu ar gyfer cymharu a manwerthu cyfleus ar gyfer y Sir. Diben astudiaeth fanwerthu newydd fydd darparu data a gwybodaeth gynhwysfawr am berfformiad presennol y canolfannau manwerthu a masnachol a rhoi asesiad cyfredol o gapasiti gwariant manwerthu o fewn y Sir a nodi capasiti ar gyfer cymharu a nwyddau cyfleus. Bydd yr astudiaeth ddiweddaraf hon yn llywio'r adolygiad o'r Cynllun o ran strategaeth fanwerthu, polisiâu manwerthu a dyraniadau y CDLI. Bydd gwaith ehangach hefyd yn cael ei wneud mewn ymateb i'r heriau presennol yn sgil pandemig Covid ar y Stryd Fawr i lywio rhinweddau neu fel arall y modd y gall polisi CDLI yn y dyfodol ymateb yn fwyaf effeithiol.

Trafnidiaeth (KP8, T1-T9)

- 3.44. Mae data a gesglir o ran teithio drwy ddulliau cynaliadwy yn adlewyrchu'r amrywiadau fel y dangosir mewn tueddiadau yn y gorffennol dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae hyn yn dangos bod tueddiadau teithio cynaliadwy wedi parhau i gynyddu dros y 10 mlynedd diwethaf ar gyfer gwaith a siopa, er bod y tueddiadau'n dangos gostyngiad bach ar gyfer hamdden ac addysg.
- 3.45. O ran dulliau teithio cynaliadwy, gwnaed cynnydd sylweddol o ran cyrraedd targedau beicio at bob diben teithio gyda beicio i'r gwaith yn arbennig wedi profi twf sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (+3.7%). Mae'r defnydd o drenau wedi dirywio ychydig dros y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer gwaith ac addysg ond mae'r duedd 10 mlynedd yn dangos cynnydd sylweddol. Mae cerdded wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf at bob diben teithio gyda tuedd tymor hwy amrywiol. Mae'r defnydd o fysiau wedi gostwng ar gyfer addysg, siopa a hamdden, gan adlewyrchu tuedd tymor hwy sydd am i lawr.
- 3.46. Yn unol â chanllawiau Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLI) Llywodraeth Cymru (Mai 2014), paratodd Cyngor Caerdydd Gynllun Trafnidiaeth Lleol newydd yn 2015 a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r CTLI yn disodli Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) De-ddwyrain Cymru 2010 a lywiodd y gwaith o baratoi'r CDLI mabwysiedig. Yn unol â chyfarwyddyd y canllawiau, mae'r CDLI yn ddiweddiariad o gynlluniau a blaenoriaethau a nodwyd yn y CTRh.
- 3.47. Yn ogystal, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn adlewyrchu gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr yn barhaus, ynghyd â pharatoi mapiau sy'n nodi llwybrau presennol a llwybrau posibl yn y dyfodol. Mae Caerdydd wedi gwneud cynnydd da cyn y Ddeddf drwy gynlluniau i ddatblygu Rhwydwaith Beicio Strategol y ddinas a nifer o welliannau i gerddwyr. Mae cynnydd diweddar mewn teithiau beicio yn dangos potensial Caerdydd i fod yn un o brif ddinasoedd beicio'r DG. Gellir ystyried unrhyw gynigion newydd neu ddiwygiedig ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol, yn enwedig ar gyfer cerdded a beicio, ar gyfer diogelu drwy broses adolygu'r CDLI lle maent o fewn rhaglen, wedi'u hategu gan gyllid ac yn debygol o gael eu cyflawni yng nghyfnod y cynllun.
- 3.48. Cytunodd ein Cabinet ar Strategaeth Trafnidiaeth y Cyngor, sy'n dod â'r cynigion yn ein Cynllun Datblygu Lleol a'n Cynllun Trafnidiaeth Lleol ynghyd, ym mis Hydref 2016 Diben y strategaeth yw:
- Codi ymwybyddiaeth o heriau trafniadaeth Caerdydd dros yr 20 mlynedd nesaf
 - Tynnu sylw at y prif brojectau a chamau y mae'r Cyngor yn cynnig eu cyflawni i daclo'r heriau a chynyddu teithio cynaliadwy yng Nghaerdydd

- 3.49. Rhoddir ystyriaeth hefyd i oblygiadau polisi/defnydd tir cynigion Metro De-ddwyrain Cymru Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ym mhroses adolygu'r Cynllun. Mae cynigion y Metro yn ceisio gwella cysylltedd trafniadaeth ar draws y rhanbarth sy'n rhan annatod o sicrhau canlyniadau economaidd a chymdeithasol ehangach i dde-ddwyrain Cymru.
- 3.50. Yn gyffredinol, ystyrir bod cyfeiriad polisiâu'r CDLI yn gyson â chanllawiau dilynol a gynhyrchwyd ar lefel genedlaethol a lleol. Yn wir, ystyrir y bydd y dull a nodir yn y CDLI ar gyfer teithio cynaliadwy, newid moddol a theithio llesol yn cael ei groesawu'n llawnach mewn polisi cenedlaethol. Mae'r broses adolygu yn caniatáu datblygu'r dull hwn ymhellach er mwyn manteisio i'r eithaf ar y ffordd y gall teithio cynaliadwy fod yn rhan o strategaeth gyffredinol y cynllun ac ystyried goblygiadau pandemig Covid.

Amgylchedd (KP3 A+B, KP15-16, KP18, EN1-8, EN10-14)

- 3.51. Mae effeithiolrwydd polisiâu ffiniau Lletemau Glas ac Anheddiad wedi'i fonitro gan y 3 AMB a gynhyrchwyd hyd yma ac ni chaniatawyd unrhyw geisiadau am ddatblygiad amhriodol yn y Lletem Werdd ac ni chaniatawyd unrhyw geisiadau y tu allan i ffin anheddiad nad oeddent yn bodloni polisi, ers mabwysiadu'r CDLI. O ystyried hyn, ystyrir bod y ddau bolisi hyn yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, fel rhan o'r adolygiad o'r cynllun bydd adolygiad o ffin y Lletem Werdd ac Anheddiad yn digwydd er mwyn sicrhau ei fod yn ystyried goblygiadau pandemig Covid, newidiadau mewn polisi cynllunio cenedlaethol a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cynllun.
- 3.52. Mae effeithiolrwydd polisiâu amgylcheddol ehangach (EN1-8) wedi'i fonitro gan y 3 AMB a gynhyrchwyd hyd yma ac wedi dangos na fu unrhyw effaith negyddol ar Ardaloedd Tirwedd Arbennig, Coetiroedd Hynafol, SBCN, SCNDd, a Natura 2000 a safleoedd dynodedig Ewropeaidd. O ystyried hyn, ystyrir bod y ddau bolisi hyn yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, fel rhan o'r adolygiad o'r cynllun bydd adolygiad o'r polisiâu hyn yn cael ei gynnal i sicrhau ei fod yn ystyried goblygiadau pandemig Covid, newidiadau mewn polisi cynllunio cenedlaethol, newidiadau cyd-destunol ac unrhyw newidiadau yn sylfaen dystiolaeth y CDLI.
- 3.53. Mae effeithiolrwydd polisiâu adnoddau naturiol (KP18, EN11, ac EN13) wedi'i fonitro gan y 3 AMB a gynhyrchwyd hyd yma ac wedi dangos na fu unrhyw effaith negyddol ar ansawdd na maint y cyflenwad dŵr ac nad yw nifer yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer wedi cynyddu ers i'r cynllun gael ei fabwysiadu. O ystyried hyn, ystyrir bod y ddau bolisi hyn yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, fel rhan o'r adolygiad o'r cynllun bydd adolygiad o'r polisiâu hyn yn cael ei gynnal i sicrhau ei fod yn ystyried goblygiadau pandemig Covid, newidiadau mewn polisi cynllunio cenedlaethol, newidiadau cyd-destunol ac unrhyw newidiadau yn sylfaen dystiolaeth y CDLI.
- 3.54. Mae effeithiolrwydd polisiâu ynghylch newid yn yr hinsawdd (KP15, EN10, EN12, EN14) wedi'u monitro gan y 4 AMB a gynhyrchwyd hyd yma ac maent wedi dangos bod y polisiâu'n gweithio'n effeithiol.

- 3.55. Mae monitro ar gyfer y polisiâu perygl llifogydd yn dangos na chaniatawyd unrhyw geisiadau am ddatblygiadau sy'n agored iawn i niwed ym mharthau llifogydd C2 a dim ond 4 cais am ddatblygiad mewn ardal fregus iawn sydd wedi'u caniatáu ym mharth llifogydd C1, nad oeddent yn bodloni'r meini prawf perygl llifogydd a nodir yn TAN15. Roedd y ceisiadau hyn yn ymwneud â throsi ac ymestyn eiddo presennol yn ardal Treganna a Glanyrafon y ddinas yn fflatiau ac roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwrthwynebu gan nodi y byddai dyfnder y llifogydd ar lefel y llawr gwaelod yn fwy na 600 metr ac felly nid oeddent yn bodloni'r terfynau y gellid eu goddef a nodir yn TAN15 (Adran A1.14). Wrth benderfynu ar y ceisiadau hyn, roedd y Cyngor o'r farn y byddai'n afresymol gwrthod caniatâd cynllunio ar y mater hwn gan fod yr eiddo eisoes yn cael eu defnyddio di ddibenion preswyl ac wedi eu hamgylchynu gan eiddo preswyl eraill gyda'r un lefel llawr gorffenedig. Yn ogystal, nodwyd bod lloches llawr cyntaf ar gael i bob uned o fflat ac yn y ddau achos rhoddwyd gwybod i'r ymgeisydd am y perygl o lifogydd yn y safle. O ystyried hyn, ystyrir bod y pedwar cais hyn yn codi materion penodol y mae angen eu hystyried ar wahân ac nad ydynt yn gysylltiedig â pherfformiad Polisi EN14 sy'n gweithio'n effeithiol fel y dangosir gan y ffaith bod perygl llifogydd wedi'i ystyried.
- 3.56. Fodd bynnag, fel rhan o'r adolygiad o'r cynllun bydd adolygiad o'r polisiâu hyn yn cael ei gynnal i sicrhau ei fod yn ystyried goblygiadau pandemig Covid, newidiadau mewn polisi cynllunio cenedlaethol a'r sylfaen dystiolaeth sy'n esblygu sy'n ymwneud â'r cysylltiadau rhwng newid yn yr hinsawdd a pherygl llifogydd er mwyn sicrhau bod adolygiad y cynllun yn ymateb i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd.
- 3.57. Ar fater Polisi EN12: Ynni Adnewyddadwy a Thechnolegau Carbon Isel Canfu adolygiad y CDLI fod cyfanswm o 6 cynllun wedi'u caniatáu ers mabwysiadu'r CDLI.
- 3.58. Ar lawer ystyr, ystyrir mai cymharol brin yw'r cyfle ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghaerdydd. Yn wahanol i rai awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, nid oes gan Gaerdydd unrhyw Ardaloedd Chwilio Strategol (TAN8) a thrwy hynny gyfyngu ar y potensial i harneisio ynni gwynt ar y tir ar raddfa fawr. O ran technolegau eraill, mae Caerdydd yn ardal gymharol fach gyda llawer o'i thir eisoes wedi'i datblygu. Y tu allan i'r ardaloedd trefol, mae topograffeg, cyfyngiadau amgylcheddol ynghyd â gwerthoedd tir cymharol uchel yn cyfyngu ar gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy canolig-mawr. Fodd bynnag, mae eithriadau, o fewn hen ardal y dociau, mae dau gynllun nodedig eisoes ar waith gan gynnwys Cyfleuster Adfer Ynni yn Sblot (30MW) ac yn fwy diweddar gwaith biomas yn Nhremorfa (2MW). Rhoddwyd caniatâd cynllunio hefyd ym mis Mehefin 2018 ar gyfer gwaith biomas ar Ffordd Rover (9.5MW) ac ychydig y tu allan i'r cyfnod monitro presennol ym mis Mai 2019 ar gyfer Fferm Solar 8.7 MW ar hen domen Ffordd Lamby. Hefyd yn ystod y flwyddyn rhoddwyd caniatâd cynllunio i 9 cais a oedd yn cynnwys cyfanswm o 0.52 MW o ynni'r haul.
- 3.59. Fodd bynnag, mae newidiadau cyd-destunol sylweddol wedi digwydd o ran ynni adnewyddadwy a charbon isel ers mabwysiadu'r CDLI y bydd angen eu hystyried/mynd i'r afael â nhw drwy broses adolygu'r CDLI. Yn ogystal, bwydodd Asesiad Ynni

Adnewyddadwy (AYA) Caerdydd (Medi 2013) i'r polisïau a nodir yn y CDLI. Bydd angen i'r CDLI newydd ystyried y Pecyn Cymorth diwygiedig a mynd i'r afael â'r gofynion ychwanegol a nodir ynddo i gynhyrchu AYA diwygiedig fel tystiolaeth i gefnogi targedau lleihau carbon a lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd.

3.60. Yn gyffredinol, bydd angen i broses adolygu'r cynllun edrych y tu hwnt i adroddiadau AMB a dadansoddi'r polisi presennol mewn ymateb i bandemig presennol Covid a'r datgan ar argyfwng hinsawdd a thystiolaeth ehangach ynglŷn â maint a maint y problemau a wynebir. Gall y broses adolygu archwilio'r ymateb polisi mwyaf priodol i'r cyd-destun newydd hwn.

Treftadaeth Adeiledig (KP17, EN9)

3.61. Mae effeithiolrwydd y polisïau hyn wedi'i fonitro gan y 3 AMB a gynhyrchwyd hyd yma ac maent wedi dangos bod yr holl geisiadau perthnasol a dderbyniwyd ar asedau'r amgylchedd hanesyddol yn cael eu hystyried yn cydymffurfio â pholisi yn amodol ar amodau/argymhellion a roddwyd ar y caniatâd. Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau gyda gwrthwynebiad gan ymgynghorwyr treftadaeth statudol nas bodlonwyd. O ystyried hyn, ystyrir bod y ddau bolisi hyn yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, fel rhan o'r adolygiad o'r cynllun, bydd adolygiad o'r polisïau hyn yn cael ei gynnal i sicrhau ei fod yn ystyried newidiadau mewn polisi cynllunio cenedlaethol, newidiadau cyd-destunol ac unrhyw newidiadau yn sylfaen dystiolaeth y CDLI.

Uwchgynllunio, dylunio a seilwaith (KP4-7)

3.62. Mae'r Ymagwedd Uwchgynllunio a nodir yn KP4 (ac a gyflwynwyd mewn modd sy'n benodol i safle drwy Bolisïau KP2 (A) i (H)) wedi bod yn effeithiol iawn o ran darparu fframwaith cyffredinol i sicrhau bod Safleoedd Strategol yn cael eu darparu mewn modd cynhwysfawr; gan roi egwyddorion creu lleoedd wrth wraidd datblygiadau newydd, a darparu'r seilwaith angenrheidiol mewn modd amserol. Mae Polisi KP5, ochr yn ochr â chyfres o ganllawiau cynllunio atodol dylunio newydd, hefyd wedi bod yn effeithiol wrth bennu meini prawf manwl i sicrhau dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel.

3.63. Mae newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) yn 2018 yn gyson ar y cyfan â'r ymagwedd polisi hwn. Bydd y broses adolygu yn rhoi cyfle i ymgorffori egwyddorion creu lleoedd ymhellach drwy ddylunio da, cadw asedau treftadaeth, bioamrywiaeth a darparu seilwaith cymunedol o fewn y fframwaith polisi cynllunio. Mae'r pwyslais hwn ar egwyddorion creu lleoedd yn gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru a nodir yn "Adeiladu Lleoedd Gwell" a bydd yn helpu i adfer y ddinas o effeithiau'r pandemig Covid.

3.64. Polisi Strategol CDLI KP6: Mae Seilwaith Newydd yn nodi y bydd datblygiadau newydd yn gwneud darpariaeth briodol taug at y seilwaith angenrheidiol, neu'n cyfrannu ato, o ganlyniad i ddatblygiad newydd arfaethedig. Polisi Strategol CDLI KP7: Mae Rhwymedigaethau Cynllunio yn ceisio cyfraniadau gan ddatblygwyr tuag at y gofynion ychwanegol y mae datblygiadau newydd yn eu creu ar wasanaethau, cyfleusterau, seilwaith a'r amgylchedd sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â negodi manteision sy'n gwella

safon y cynigion datblygu drwy ddarparu'r seilwaith angenrheidiol a manteision cymunedol. Cyflawnir y polisi hwn drwy'r broses rheoli datblygu.

3.65. Ers 2009, mae'r Cyngor wedi sicrhau £165 miliwn mewn cyfraniadau ariannol o geisiadau cynllunio (gweler tabl 2 isod). Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys gwaith ar y safle fel tai fforddiadwy, seilwaith gwyrdd, teithio llesol a gwelliannau i briffyrdd. Daw cyfran sylweddol o'r cyfraniadau hyn o safleoedd strategol y CDLI lle mae polisiau manwl a'r yamgwedd uwchgynllunio wedi helpu i drafod, sicrhau a chyflwyno seilwaith yn raddol mewn modd cynhwysfawr ac amserol.

Tabl 2: Adran 106 Cyfraniadau Ariannol a sicrhawyd rhwng 2009 a 2019

Blwyddyn	Cyfraniadau ariannol Adran 106 a sicrhawyd (£)
2009	2,057,283
2010	3,488,465
2011	8,331,659
2012	1,459,561
2013	5,779,325
2014	31,304,088
2015	12,555,008
2016	14,248,428
2017	77,470,070
2018	4,223,307
2019	3,204,329
2020	1,147,744
Cyfanswm	165,269,268

3.66. Sicrheir cyfraniadau drwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio fel y nodir yn Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Gellir ymrwmo i gytundebau hefyd o dan Adrannau 278 a 38 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Mae'r rhain yn rhagnodi'r gwaith priffyrdd sy'n ofynnol o ganlyniad i ddatblygiadau arfaethedig.

3.67. Penderfynodd y Cyngor ar 18 Medi 2014 i ddechrau gweithio ar Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) ar gyfer Caerdydd ac ymgynghori ar Atodlen Codi Tâl Ddrafft Rhagarweiniol (ACTDRh) . Yn dilyn ymgynghoriad ar yr ACDTRh ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2014, cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr Atodlen Codi Tâl Ddrafft (ACTD) ym mis Medi/Hydref 2016. Y cam nesaf wedi bod fyddai cyflwyno'r ACTD i'w Archwilio gan arolygydd annibynnol. Fodd bynnag, ni weithredwyd ar gamau pellach wrth baratoi Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer Caerdydd o ystyried y newidiadau arfaethedig i lywodraethiant yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a amlinellir isod.

- 3.68. Yn 2017, cyhoeddodd yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol (AGLIL) adolygiad o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, o'r enw 'Adolygiad ASC: Adroddiad i'r Llywodraeth', sy'n argymhell cyfres o newidiadau i'r broses. Mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol bellach wedi'i datganoli i Lywodraeth Cymru drwy Ddeddf Cymru 2017. Hefyd, trosglwyddodd *Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018* y swyddogaethau gweithredol angenrheidiol i Weinidogion Cymru i gyd-fynd â datganoli'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Daeth hyn i rym ym mis Mai 2018.
- 3.69. Bydd y broses adolygu yn gyfle amserol i ystyried a oes rhinwedd mewn datblygu Ardoll Seilwaith Cymunedol i Gaerdydd o ystyried y newidiadau o ran y cyd-destun. Er enghraifft, gallai hyn archwilio a oes lle i'r Ardoll Seilwaith Cymunedol sicrhau arian o'r math o safleoedd a defnyddiau sydd weithiau'n profi'n heriol i sicrhau arian Adran 106 oherwydd ffactorau hyfywedd neu drothwyon polisi. Gall yr Ardoll Seilwaith Cymunedol fod yn berthnasol i ddatblygiadau preswyl ac amhreswyl, a gall gynnwys safleoedd tir llwyd a safleoedd anstrategol.
- 3.70. Mae cyfnod estynedig y cynllun yn caniatáu adolygiad o ofynion seilwaith sy'n gysylltiedig â thwf, ynghyd ag ystyriaeth gyfochrog o ofynion seilwaith i ymateb i effeithiau Pandemig Covid, disgwyliadau polisi realistig, hyfywedd datblygu a mecanweithiau darparu seilwaith amgen.
- 3.71. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio i ategu Polisi KP6 a KP7 wedi'u paratoi i sicrhau bod datblygiadau'n cyfrannu at ddarparu'r seilwaith a'r mesurau angenrheidiol sydd eu hangen i liniaru eu heffaith ac i roi eglurder i ddatblygwyr, asiantau a rhanddeiliaid eraill ynghylch ar ba sail y sicrheir rhwymedigaethau cynllunio.
- 3.72. Yn ogystal, caiff Cynllun Seilwaith Caerdydd (CS) ei ddiweddarau'n flynyddol ac mae'n 'ddogfen fyw' sy'n cyd-fynd â Chynllun Datblygu Lleol (CDLI) Caerdydd. Mae'n cwmpasu cyfnod y cynllun hyd at 2026 ac yn nodi'r seilwaith sydd ei angen i hwyluso a chynnal lefel twf rhagamcanol y ddinas. Mae'r Cynllun Seilwaith wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â Fframwaith Monitro'r CDLI a'i ddiweddarau'n flynyddol er mwyn ymateb yn effeithiol i newidiadau mewn gwybodaeth, gweithdrefnau a deddfwriaeth sylfaenol.
- 3.73. Fel rhan o'r gwaith o fonitro safleoedd CDLI, cynhyrchwyd cyfres o Ddogfennau Monitro Strategol pwrpasol i fonitro cynnydd parhaus o ran caniatadau cynllunio a darpariaeth seilwaith ym mhob un o'r safleoedd strategol.

Cymdeithasol a chymunedol (KP13-14, C1-7)

- 3.74. Ystyrir bod polisïau manau agored y Cynllun yn gyffredinol yn gweithio'n effeithiol i ddiogelu cyfleusterau hamdden presennol a manau agored cyhoeddus ac i sicrhau darpariaeth o gyfleusterau newydd yn ywneud â datblygiadau preswyl newydd yn unol â'r safonau mabwysiedig. Fodd bynnag, fel rhan o'r broses adolygu bydd angen ystyried goblygiadau pandemig Covid ar gyfer darpariaeth manau agored a

chyfleusterau cymunedol eraill yn y ddinas gan ystyried canfyddiadau'r arolwg manau agored diweddaraf, a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2020.

3.75. Yn ogystal, bydd angen ystyried goblygiadau Covid a'r newidiadau cyd-destunol i bolisi cynllunio cenedlaethol a nodir ym Maes Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10, Rhagfyr 2018) ynghyd â chanllawiau newydd a gynhyrchwyd gan Feysydd Chwarae Cymru yn 2017, 'Canllawiau ar gyfer Chwaraeon a Chwarae Yn yr Awyr Agored: Tu hwnt i'r Safon Chwe Erw.' Mae'r canllawiau hyn, er eu bod yn cadw'r un prif gyfraddau darpariaeth â'r "Safon Chwe Erw" wreiddiol, yn tynnu sylw at argymhellion newydd ar gyfer hygyrchedd, ar gyfer cymhwyso safonau'n hyblyg a dimensiynau sylfaenol gofod awyr agored ffurfiol. Mae diwygio'r canllawiau hefyd yn cyflwyno meincnodi ar gyfer manau agored anffurfiol nad ydynt yn cynnwys chwaraeon a chwarae wedi'u trefnu ac mae'n cynnwys parciau a gerddi a chynefinoedd naturiol a lled-naturiol. Nid yw'r diwygiadau i'r canllawiau yn arwain at ofyniad i wneud addasiadau i safonau'r CDLI presennol gan fod TAN16 yn hyrwyddo safonau a gynhyrchir yn lleol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Fodd bynnag, bydd y canllawiau meincnod diwygiedig a argymhellir ar gyfer manau awyr agored ffurfiol ac anffurfiol yn cael eu hystyried ym mhroses adolygu'r CDLI. Mae'r Cyngor hefyd yn symud oddi wrth ddull o ddarparu hamdden a manau agored yn seiliedig ar gydymffurfio'n llym â safonau a bennwyd rhag blaen. Mae hyn yn unol â pholisïau Seilwaith Gwyrdd y CDLI sy'n annog defnydd amlswyddogaethol o fannau agored.

3.76. Ystyrir bod polisïau ynghylch iechyd yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, fel rhan o'r adolygiad o'r cynllun bydd adolygiad o'r polisïau hyn yn cael ei gynnal i sicrhau ei fod yn ystyried goblygiadau pandemig Covid, newidiadau mewn polisi cynllunio cenedlaethol a'r sylfaen dystiolaeth sy'n esblygu sy'n nodi'r cysylltiadau rhwng gordewdra a'r amgylchedd adeiledig. Yn gyffredinol, bydd angen i broses adolygu'r cynllun edrych y tu hwnt i adrodd yr AMB a dadansoddi'r polisi presennol mewn ymateb i'r dystiolaeth gynyddol, sy'n tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng iechyd a'r amgylchedd adeiledig ac yn ceisio ffafrio creu amgylcheddau mwy iach a gweithgar. Yn benodol, gall y broses adolygu archwilio'r cysylltiadau rhwng gordewdra, iechyd a llesiant a ffyrdd iach ac egniol o fyw a'r amgylchedd adeiledig ac ystyried yr ymateb polisi mwyaf priodol i'r cyd-destun newydd hwn.

3.77. Ystyrir bod polisïau sy'n ymwneud â'r gymuned (C1 i C3, C7) yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, fel rhan o'r adolygiad o'r cynllun bydd adolygiad o'r polisïau hyn yn cael ei gynnal i sicrhau ei fod yn ystyried y goblygiadau sy'n deillio o bandemig presennol Covid, newidiadau mewn polisi cynllunio cenedlaethol a'r sylfaen dystiolaeth sy'n esblygu sy'n nodi'r cysylltiadau rhwng gordewdra a'r amgylchedd adeiledig.

Gwastraff (KP12, W1-2)

3.78. Paratowyd polisïau Gwastraff CDLI yng nghyd-destun Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (CGRh) De-ddwyrain Cymru – Adolygiad Cyntaf 2008. Roedd hwn yn nodi gofynion tir ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd, a gafodd eu hystyried ym Maes Polisi W1: Safleoedd ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff, a nododd safleoedd a oedd â

photensial ar gyfer lleoli cyfleusterau rheoli gwastraff – safleoedd diwydiannol dosbarth B2 a safleoedd rheoli gwastraff a oedd yn bod yn barod. Mae canlyniadau'r adroddiad monitro am y tair blynedd diwethaf yn dangos bod y polisi hwn yn gweithio'n effeithiol a bod digon o dir ar gael i ddiwallu anghenion rheoli gwastraff Caerdydd.

- 3.79. Fodd bynnag, nid yw'r CGRh yn cael effaith mwyach ar ôl ailysgrifennu polisi cynllunio cenedlaethol ar wastraff er mwyn adlewyrchu'r cyd-destun polisi gwastraff newydd a gyflwynwyd drwy Gyfarwyddeb yr UE ar Wastraff (2008/98/EC), Strategaeth Wastraff Cymru, 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff, Mehefin 2010 a'r gyfres sylfaenol o gynlluniau'r sector gwastraff, yn enwedig Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (SCSM). Dull cyffredinol y Cynllun SCSM fu symud oddi wrth gyfrifiadau ar sail defnydd tir i ymagwedd lle mae'r angen am gyfleusterau rheoli gwastraff yn cael ei fynegi gan gapasiti mewn tunelli yn y dyfodol. Fel y nodwyd yn Llythyr Egluro Polisi Llywodraeth Cymru CL-01-12, mae datblygiad technoleg wedi arwain at ddatblygu cyfleusterau llai, mwy gwasgaredig (mwy hyblyg, sy'n gallu manteisio ar gyfleoedd arbenigol). Mae hefyd wedi arwain at y posibilrwydd o ddatblygu cyfleusterau mwy i adlewyrchu arbedion maint a lleihau gwariant busnesau ac awdurdodau lleol ar reoli eu gwastraff gweddilliol. Canlyniad hyn yn y pen draw yw ei bod bellach yn anos priodoli gwerth i 'gyfleuster cyfartalog' – ac o'r herwydd, mae cyfrifiadau cymryd tir ar sail arwynebedd wedi dod yn llai perthnasol.
- 3.80. Mae'r Cynllun SCSM yn disgrifio'r fframwaith rheoli gwastraff sy'n cynnig yr atebion gorau o ran bodloni anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yng Nghymru hyd at 2050. Nid oes rhaid i asesiadau gwastraff a gynhwysir yn y Cynllun SCSM gael eu hailadrodd gan awdurdodau cynllunio lleol ar lefel ranbarthol neu leol. Fodd bynnag, mae angen monitro drwy gydweithredu gwirfoddol ar lefel ranbarthol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau mewn CDLIau yn y dyfodol ac wrth ddelio â cheisiadau cynllunio am wastraff. Mae'r gwaith monitro rhanbarthol wedi arwain at yr Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff (AMCG) cyntaf ar gyfer De Ddwyrain Cymru (Ebrill 2016). Daeth hyn i'r casgliad mai'r sefyllfa ranbarthol oedd:
- Nad oes angen pellach am gyfleusterau tirlenwi o fewn rhanbarth y de-ddwyrain.
 - Mae'n ychwanegu y dylai unrhyw gynigion am ragor o gyfleusterau trin gwastraff gweddilliol gael eu hasesu'n ofalus i sicrhau na fyddai'r cyfleuster yn arwain at ddarpariaeth ormodol.
- 3.81. Ymddengys, felly, nad oes angen cyfleusterau gwastraff gweddilliol yng Nghaerdydd ar hyn o bryd er bod Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10, paragraff 5.13.12) yn ei gwneud yn ofynnol ystyried nodi lleoliadau addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff cynaliadwy fel rhan o'r gwaith o baratoi CDLI. Mae Polisi Cynllunio Cymru (paragraff 5.13.8) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu ddangos sut y mae polisi gwastraff cenedlaethol, ac yn arbennig y Cynllun SCSM, ynghyd ag unrhyw sefyllfa wedi'i diweddarau a fabwysiadwyd yn yr adroddiadau monitro cynllunio gwastraff ac unrhyw fath arall o flaenoriaethau rheoli gwastraff sy'n berthnasol i'w hardal leol, wedi'u hystyried.

3.82. Ystyrir bod y polisïau gwastraff yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, bydd angen i'r adolygiad o'r cynllun sicrhau ei fod yn ystyried newidiadau mewn polisi cynllunio cenedlaethol a'r sylfaen dystiolaeth sy'n esblygu, gan gynnwys unrhyw newidiadau i dargedau ailgylchu cenedlaethol a'r angen am gyfleusterau ailgylchu rheoli gwastraff ychwanegol dros gyfnod estynedig y cynllun hyd at 2035.

Mwynau (KP11, M1-8)

3.83. Paratowyd polisïau Mwynau y CDLI yng nghyd-destun y Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) Adolygiad 1af (Awst 2014), a gynhyrchwyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru. Mae 2il adolygiad o'r CDRh yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac yn dilyn ymgynghoriad disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2020. Mae monitro polisïau Mwynau a nodir yn y tri AMB yn dangos bod y polisïau'n gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, bydd angen i'r adolygiad o'r CDLI ystyried goblygiadau'r argymhellion yn yr 2^{il} Adolygiad o'r CDRh ar gyfer y strategaeth mwynau a nodir yn y CDLI ynghyd ag unrhyw newidiadau yng nghanllawiau presennol y llywodraeth.

Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

3.84. Mae nifer o ddogfennau canllawiau cynllunio atodol (CCA) sy'n cefnogi meysydd polisi allweddol y CDLI wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor ers mabwysiadu'r CDLI. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Tai Amlfeddiannaeth
- Casglu Gwastraff a Chyfleusterau Storïo
- Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol;
- Rhwymedigaethau Cynllunio
- Adeiladau Uchel
- Canllaw Dylunio Preswyl
- CCA Gofal Plant
- Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant
- Canllawiau Dylunio Mewnlenni
- Canllawiau Estyniadau a Newidiadau Preswyl
- Seilwaith Gwyrdd (gan gynnwys Nodiadau Cyfarwyddyd Technegol sy'n ymwneud â Mannau Agored, Ecoleg a Bioamrywiaeth, Coed, Priddoedd, Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Choridoriau Afonydd)
- Diogelu Tir ac Adeiladau Busnes a Diwydiannol
- Defnyddiau Bwyd, Diod a Hamdden
- Ardaloedd archeolegol sensitif
- Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth (gan gynnwys Safonau Parcïo)
- Addasu Fflatiau
- Llety Myfyrwyr
- Canllaw ar gyfer Blaen Siopau ac Arwyddion

3.85. Bydd adolygiad o'r CCA presennol gan gynnwys rhai a ddiwygiwyd ac a fabwysiadwyd yn ddiweddar yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses Adolygu CDLI.

Map Cynigion a Map Cyfyngiadau

- 3.86. Bydd ffurf a chynnwys Map Cynigion y CDLI yn gofyn am newidiadau fel rhan o'r Adolygiad y CDLI i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r cynllun.
- 3.87. Mae Map Cyfyngiadau'r CDLI yn cynnwys dynodiadau nad ydynt yn gynigion uniongyrchol o'r CDLI ond sy'n gyfyngiadau ar ddatblygiadau a grëir gan ddeddfwriaeth neu fecanweithiau eraill y tu allan i broses y CDLI megis Ardaloedd Perygl Llifogydd, Ardaloedd Cadwraeth, SDdGA ac ati. Mae'r Map Cyfyngiadau printiedig ar gyfer y CDLI yn cynrychioli pwynt mewn amser ac mae'n cynnwys nifer o ddynodiadau, yn enwedig ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, sydd wedi'u diweddarau ers mabwysiadu'r CDLI ac felly mae wedi dyddio. Wrth symud ymlaen mae'n debygol y bydd y Map Cyfyngiadau yn cael ei gynhyrchu ar ffurf electronig gyda mynediad cyhoeddus a fydd yn caniatáu iddo gael ei ddiweddarau yn ôl yr angen.

4. Gofynion Sylfaen Dystiolaeth y CDLI yn y Dyfodol

4.1. Er mwyn llywio'r adolygiad o'r CDLI Newydd bydd angen diweddaru gwahanol elfennau o'r sylfaen dystiolaeth a lywiodd y Cynllun Datblygu Lleol presennol sydd wedi dyddio ac y mae angen ei ddiweddaru a/neu ei ddisodli er mwyn deall gofynion defnydd tir y Ddinas hyd at 2036 yn llawn yn ogystal ag ystyried oblygiadau y pandemig Covid ac unrhyw newidiadau cyd-destunol neu bolisi sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r cynllun presennol. Dylai rhanddeiliaid fod yn ymwybodol y bydd y wybodaeth hon yn helpu i lywio'r cam opsiynau strategol, yr ymgynghorir arno yn hydref 2021. Mae sampl o astudiaethau sylfaen tystiolaeth posibl y gallai fod eu hangen i lywio'r CDLI newydd yn cynnwys:

1. **Rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd** – i lywio gofyniad annedd y CDLI Newydd hyd at 2036.
2. **Asesiad o Anghenion Tai Lleol** – i lywio'r math o ddeiliadaeth a maint y gofyniad tai a maint yr annedd i gyfateb i'r math o aelwyd a phroffil oedran y boblogaeth yn y dyfodol.
3. **Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr** - i nodi'r angen am leiniau parhaol a thramwy hyd at 2036.
4. **Asesiad Trafnidiaeth** – i asesu effaith graddfa a dosbarthiad y datblygiad a nodir yn y CDLI Newydd.
5. **Diweddariad ar yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth** – i asesu'r angen am dir cyflogaeth sy'n addas ar gyfer pob sector cyflogaeth a dyheadau cyflogaeth rhanbarthol yn y dyfodol.
6. **Asesiad o Anghenion Manwerthu** – i nodi a oes gofyniad am arwynebedd llawr ychwanegol i helpu i lywio dull y Cyngor o reoli bywiogrwydd a hyfywedd canol ein dinas, ein canolfannau dosbarth a'n canolfannau lleol.
7. **Astudiaeth Gallu Trefol** – i fesur faint o dir llwyd a allai gyfrannu at yr angen am dai yn y ddinas hyd at 2036.
8. **Adolygiad o Ffiniau Aneddiadau** – i ddiffinio ffiniau clir o amgylch aneddiadau ar ffurf ffiniau anheddiad.
9. **Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy** – i roi cyngor ar dargedau a throthwyon cyraeddadwy a hyfyw ar gyfer tai fforddiadwy.
10. **Gofynion Seilwaith dros gyfnod y cynllun** – i adeiladu ar Gynllun Seilwaith presennol Caerdydd ac ymestyn i gwmpasu cyfnod arfaethedig y Cynllun Newydd.

11. **Asesiad Ynni Adnewyddadwy** – tystiolaeth i gefnogi targedau lleihau carbon a lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd.
12. **Asesiad Strategol o Berygl Llifogydd** – i nodi ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.
13. **Asesiad Seilwaith Gwyrdd** – i nodi data perthnasol am amgylchedd naturiol Caerdydd.
14. **Ail Adolygiad o Ddatganiad Technegol Rhanbarthol De Cymru ar Agregau** – yn nodi anghenion agregau hyd at 2036.

4.2. Nid yw'r uchod yn rhestr ddiffiniol a gallasai rhai gofynion diweddarau'r sylfaen dystiolaeth ychwanegol ddod i'r amlwg wrth i ddiwygio'r cynllun fynd rhagddo. Bydd deialog barhaus ag Awdurdodau Lleol eraill yn helpu i sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd a'r cysondeb mwyaf posibl o ran casglu/rhannu tystiolaeth a chytuno ar fethodolegau lle y bo'n bosibl.

Arfarniad Cynaliadwyedd gan gynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol

4.3 Un o ofynion proses y CDLI yw bod Arfarniad Cynaliadwyedd sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn llywio'r gwaith o baratoi'r CDLI. Mae proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS yn rhan annatod o ddatblygiad y CDLI er mwyn sicrhau bod y polisiau yn y CDLI yn hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy drwy integreiddio'r amcanion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol allweddol wrth ddatblygu polisiau a chynigion y CDLI ac ystyried unrhyw effeithiau sylweddol ar yr Amgylchedd. Mae'r AC/AAS wedi bod yn broses ailadroddol drwy gydol y gwaith o baratoi'r CDLI ac mae polisiau a chynigion yn y CDLI yn adlewyrchu hyn.

4.4 Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn monitro'r Amcanion Arfarnu Cynaliadwyedd yn flynyddol ac yn cael ei adrodd drwy Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLI. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i asesu i ba raddau y mae'r CDLI yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy ac i nodi unrhyw bryderon. Er mwyn llywio'r adolygiad o'r CDLI, bydd angen ailedrych ar waelodlin y wybodaeth amgylcheddol, gymdeithasol ac economaidd a'i diweddarau, ynghyd ag adolygu polisiau, rhaglenni a chynlluniau perthnasol. Bydd angen adolygu Fframwaith Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn gyfredol, a bydd hyn yn cynnwys ystyried a oes angen diwygio'r methodolegau oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

4.5 Bwydwyd y CDLI gan Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC), a'i ddiben yw asesu effeithiau cynllun defnydd tir, ar y cyd ag effeithiau cynlluniau a phrosiectau eraill, yn erbyn amcanion cadwraeth safleoedd Ewropeaidd o bwysigrwydd cadwraeth natur sy'n bwysig yn rhyngwladol fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (a ddynodwyd ar gyfer eu statws ecolegol) a chanfod ar ôl sgrinio beth sydd angen Asesiad Priodol (AP). Fel rhan o'r adolygiad o'r CDLI bydd angen adolygu'r ARhC.

5. Opsiynau Adolygu'r CDLI

CDLlau ar y Cyd a Chydweithio

- 5.1 Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, rhaid ystyried y posibilrwydd o baratoi CDLI ar y Cyd. Fodd bynnag, nodir bod 8 o'r 9 Awdurdod Lleol arall yn ne-ddwyrain Cymru eisoes yn paratoi eu CDLlau Newydd eu hunain heb unrhyw enghreifftiau o ymagwedd gweithredu ar y cyd. Nid yw'r Awdurdod Lleol sy'n weddill (Bro Morgannwg) wedi cyrraedd y cam Adolygu'r Cynllun eto oherwydd dyddiad mabwysiadu diweddarach ac nid ystyrir bod digon o synergeddau i gyfiawnhau paratoi CDLI ar y Cyd.
- 5.2 Manteisiodd y CDLI presennol ar ymarfer cydweithredol rhanbarthol pwrpasol i helpu i lywio strategaeth y Cynllun sy'n cynnwys yr holl Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill yn ne-ddwyrain Cymru. Gweithiodd y broses hon yn dda a chynigir dull tebyg eto i helpu i lywio'r CDLI Newydd.
- 5.3 Os bydd gwaith yn dechrau ar Gynllun Datblygu Strategol ar gyfer de-ddwyrain Cymru, gellir defnyddio gwybodaeth a gesglir drwy broses y CDLI i lywio'r CDS ac yn ôl fel arall. Bydd deialog barhaus ag Awdurdodau Lleol eraill yn helpu i sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd a'r cysondeb mwyaf posibl o ran casglu/rhannu tystiolaeth a chytuno ar fethodolegau lle y bo'n bosibl.

6 Casgliadau a Chamau Nesaf

Argymhelliad

- 6.1 Daw'r adroddiad hwn i'r casgliad mai'r weithdrefn adolygu lawn yw'r dull mwyaf priodol o adolygu a bod CDLI Newydd yn cael ei baratoi ar gyfer y cyfnod 2021 i 2036. Yn hyn o beth, cydnabyddir na all y materion a godwyd gan bandemig presennol Covid a natur strategol y materion y dylid mynd i'r afael â hwy mewn CDLI newydd gyfiawnhau'r weithdrefn adolygu ffurf fer. Bydd hyn yn sicrhau y gall y Cyngor ymateb i'r materion a godwyd gan y pandemig Covid presennol a bod Cynllun cyfredol ar waith ganddo y tu hwnt i 2026 a'i fod yn cefnogi'r ymagwedd a arweinir gan Gynllun yng Nghymru.